

ECO'R WYDDFA

Rhif 150

Medi 1989

Pris 20c

CORON I SELWYN

Llongyfarchiadau'r fro i Selwyn Griffith o Benisa'rwaun ar ei lwyddiant yn y Brifwyl. Daeth yn agos i'r brig o'r blaen, ond y tro hwn, ei ddilyniant o gerddi ar y teitl 'Arwyr' aeth â bryd y beirniaid.

Ymhlith y cyfarchion niferus a dderbyniodd y Prifardd Selwyn yn dilyn ei lwyddiant ym mhrifwyl Llanrwst, 'roedd yr englyn isod gan ei gyfaill Dafydd Williams, Bethel, sef Trysorydd y Cylchgrawn Barddas.

Cyd-ddigwyddiad diddorol yw mai cyfeiriad Dafydd yw 'Parc y Wern', sef ffug enw'r bardd yn y brifwyl.

SELWYN

Nid aethost o Fethel Selwyn - un cam
O Barc Wern o'r cychwyn,
Na chrwydro'r byd, funudyn,
Naddo awr, o'r rhosydd hyn.

Dyma gyfarchion y Prifardd
Elwyn Roberts i Selwyn yn sere-
moni'r coroni:

O Arfon un goronwyd, yn brifardd
ein Selwyn a brofwyd,
Cerfluniodd, naddodd â'i nwyd;
O'u harddel ef a urddwyd.

'Arwyr' - y gerdd a erys - yn olau,
Yn eli i'r bregus.
Yn nen brâd ddifraw ein brys,
Dros wlad anfad yn enfys.

Y goron am iddo guro - dôr awen
daer eon ddiflino;
O'r enaid geiriau'r uno;
Diliau cân o delyn co.

Enillodd y Prifardd Elwyn Roberts ei goron genedlaethol ym mhrifwyl Cricieth 1975, ac fe gynhaliwyd y Steddfod honno ar dir y cartref lle'i ganwyd.

Y bardd arall i gyfarch Selwyn oedd yr Archdderwydd etholedig, W. R. P. George (ap Llysor), bardd coronog prifwyl Bro Myrddin 1974.

Coeliwch, neu beidio, fe gafodd Selwyn sawl blwyddyn yn ôl, y fraint o ddyfarnu cadair a chadeirio'r Archdderwydd newydd mewn Steddfod yng Nghricieth. Ychydig iawn o feirdd all ymfalchio yn y ffaith iddynt gael cadeirio Archdderwydd.



'Parc y Wern' yn gwisgo'i goron o arian pur, a gynlluniwyd i adlewyrchu tirwedd bro'r Eisteddfod.

DECHRAU TYMOR Y GWEITHGAREDDAU CYMDEITHASOL

Croeso'n ôl i'r holl ddarlennwyr wedi cyfnod o wyliau i weithwyr yr 'Eco'. Mae tymor yr hydref a'r gaeaf o'n blaenau (mae adroddiadau pel-droed ar y dudalen gefn unwaith eto!), ac fel y gwelwch o ddarlennwyr rhifyn hwn, mae gwledd o wahanol weithgareddau at ddant pawb wedi ei threfnu gan fudiadau a chymdeithasau led-led y fro. Bu gwahanol bwyllgorau wrthi'n brysur yn paratoi. Bu ysgrifenyddion yn 'sgwennu degau o lythyrau. A'r cwbl er mwyn eich diddanu CHI yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Felly, codwch oddi wrth yr hen deledu 'na, ac ymunwch yng ngweithgareddau eich cymdeithas. A chwithau, drefn-

wyr y gwahanol gymdeithasau, cofiwch anfon gair neu adroddiad neu lun o'ch cyfarfodydd i'r 'Eco' er mwyn i bawb gael peth o flas y gweithgareddau.

BUDDUGWYR ERAILL O'R BRIFWYL

Gwyddom i amryw o unigolion a grwpiau o'r fro fod yn llwyddiannus mewn gwahanol gystadleuthau yn Llanrwst. Yn anffodus, nid oes gennym restr gyflawn, ac felly, rhaid ymatal rhag enwi rhai'n unig. Mae nifer o'r gohebwyrr pentrefi wedi gofalu am longyfarch llawer yn y colofnau newyddion pentref, a gofalu hefyd, fod lluniau ar gael. Ein braint ni yw fod y fro yn gyfuriog o dalentau, ac felly, estynnwn ein llongyfarchion i bob un ohonynt ar ran pobl bro'r 'Eco'.

BETH SY'N DIGWYDD I'N BRO?

Rhoddwyd cryn sylw yn ystod y misoedd diwethaf i wahanol gynlluniau twristaidd anferth sydd ar y gweill o fewn Arfon. Mae dau ohonynt o fewn ein bro ni. Tybiai pobl Llanrug fod eu brwydr hwy yn erbyn cynllun cyfran-brynu ar dir Bryn Afon wedi dirwyn i ben fis Hydref diwethaf pan ddaeth Ymchwiliad Cyhoeddus dan arolygaeth y Swyddfa Gymreig i ben. Erbyn hyn, wrth gwrs, gwyddom fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu ail-agor yr Apêl hwnnw; penderfyniad sy'n unigryw yn hanes apeliadau cynllunio o fewn Arfon, os nad yng Ngwynedd.

Ar ddechrau Medi bydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon yn gwneud penderfyniad ynglyn a chais am ddatblygu hen chwarel Glynrhonwy. Rhoes yr Ysgrifennydd Gwladol waharddiad ar y Cyngor rhag penderfynu ar eu cais cynllunio eu hunain, a bellach, rhaid i'r Cyngor benderfynu a ydynt am wneud cais i'r Swyddfa Gymreig am ganiatâd datblygu ar y safle. Mae'r tri Cyngor Cymuned o fewn ein bro wedi gwrthwynebu cynlluniau Leading Leisure, y cwmni sydd wedi eu gwahodd gan Gyngor Arfon i ddatblygu'r chwarel. Mae is-bwyllgor cynllunio Cyngor Sir Gwynedd hefyd wedi gwrthwynebu, ac y mae'r Parc Cenedlaethol wedi datgan pryderon ynglyn ag effeithiau cynllun mor anferthol ar Eryri gyfan.

Cyhoeddwn yn y rhifyn hwn o'r 'Eco' lythyr gan Glyn Tomos ar ran 'Padarn' yn annog pobl Arfon i fynychu'r cyfarfod tyn-gedfennol hwnnw o Bwyllgor

Cynllunio Arfon ar Fedi 6ed. Tristwch yw gorfod annog pobl i fynychu'r fath gyfarfod. Fe ddylai Cynghorwyr Arfon bellach sylweddoli fod gwrthwynebiad pendant yn y fro hon i gynlluniau Leading Leisure. Nid ar chwarae bach y mae pum cant a mwy o drigolion yn gorymdeithio ar strydoedd Caernarfon ar bnawn Sadwrn poeth o haf. Nid ar chwarae bach y mae cymunedau o fewn Arfon yn cyd-weithio i drefnu arddangosfa ar Faes ein Prifwyl. Nid ar chwarae bach y mae cannoedd o bobl yn llofnodi eu gwrthwynebiad i'r cynlluniau twristaidd anferth sy'n ein bygwth fel cymunedau a chymdeithasau Cymraeg. Nid ar chwarae bach y daeth yr ymgyrch 'NI BIA ARFON' i fodolaeth.

Beth bynnag fydd penderfyniad y Swyddfa Gymreig ynglyn â chynllun Bryn Afon a beth bynnag fydd y penderfyniad ynglyn â chwarel Glynrhonwy, mae'r sgil-effeithiau eisoes wedi cyrraedd y

fro. A fyddai Leading Leisure wedi prynu gwely Seiont Manor a thir Llwyn y Brain pe na bai Cyngor Arfon wedi eu gwahodd i ddatblygu safle Glynrhonwy? Bellach, mae'r cwmni cyhoeddus ariangar hwn o dde-ddwyrain Lloegr wedi cael ei big i mewn i'n hardal ni. Beth tybed fydd eu bwriadau i'r dyfodol? Dyfynnwn yma yr hyn a ddywedodd eu cadeirydd, Barry Melizia yn y Cylchgrawn *Caterer and Hotelkeeper* ar ddechrau Awst eleni: '... the future strategy of the hotels division would be to concentrate on properties with golf and tennis facilities, as exemplified by the purchase of the 28-bedroom Seiont Manor Hotel...' Dyna i chi syniad felly o beth fydd ar diroedd Llwyn y Brain yn y dyfodol - os derbynnir caniatad cynllunio gan Gyngor Arfon, wrth gwrs. Ac mae Perchennog fferm y Greuor, ar gyrion tir Llwyn y Brain, eisoes wedi cydnabod fod y cwmni hwn wedi gwneud cynnig am dir y fferm honno. Pwy a wyr pwy fydd y perchennog erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' gyrraedd pob cartref yn y fro?

Mae tir ein gwlad yn prysur fynd yn eiddo i estron. Ac y mae'n ymddangos mai'r unig ddyfodol a wêl rhai ar gyfer ein bro yw maes chwarae i ddieithriaid cefnog.

ECO'R WYDDFA

RHIF 150
MEDI 1989

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhyallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwynndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwynndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir (871043)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 28
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MEDI 19
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

PENDERFYNU AR GYNLLUN GLYNRHONWY

Annwyl Olygydd,
Caniatewch i mi atgoffa eich darl-
lenwyr pa mor bwysig ydyw ar i
BAWB ymgynnull o flaen
Swyddfeydd Cyngor Dosbarth
Arfon yn Cwellyn, Caernarfon, ar
NOS FERCHER, MEDI 6ed o
6.00 YMLAEN. Y rheswm am
hyn yw y bydd aelodau o
Bwyllgor Cynllunio y Cyngor yn
cyfarfod y noson honno i ben-
derfynu os ydynt am fwrw ati i
wneud cais i'r Ysgrifennydd
Gwladol am hawl cynllunio i
ddatblygu Glyn Rhonwy ar linellau
Cynllun Leading Leisure. Yn
naturiol ein gobaith yw y bydd y
Cynghorwyr yn ddigon doeth a
chyfrifol yn wyneb y gwrth-
wynebiadau lleol a chenedlaethol
i beidio â bwrw ymlaen i wneud
cais o'r fath i Mr Peter Walker ac
felly dod a bywyd y cais presen-
nol i ben.

Felly, fel y gwelwch, mae'n
hanfodol bwysig bod cymaint â
phosibl o bobl bro *Eco'r Wyddfa*
yn mynd i lawr i Cwellyn ar y
noson honno i ddangos i'r Cyngor
pa mor gryf yw y gwrthwynebiad
yn lleol i fwriadau Cwmni
Leading Leisure. Hefyd anogir
pawb i anfon llythyrau at eu
Cynghorwyr lleol yn gofyn iddynt
bleidleisio yn erbyn bwrw ymlaen
i ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol
am hawl cynllunio.

Felly mae'r apêl yn un daer ar i
BAWB fynd i lawr i Cwellyn
erbyn 6 y noson honno. Beth yw
awr o amser unrhyw un pan mae
cymaint yn y fantol.

Gwelwn chwi ar y 6ed o Fedi.
Llawer o ddiolch.

GLYN TOMOS

Pen y Bwlch

Dinorwig

Cadeirydd PADARN

(Cymdeithas Hybu a
Gwarchod Lleol)

DIOLCH

Dymunaf ddiolch yn gynnes
iawn i bawb a anfonodd gyfar-
chion i mi, yn dilyn fy llwyddi-
ant ym mhrrifwyl Llanrws.

Maent yn rhy niferus i mi
ateb bob un yn bersonol, ond
gallaf eich sicrhau fy mod yn
gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr
iawn. Diolch o galon.

SELWYN

Crud-yr-Awen
Penisa'rwaun.

TRETH Y PEN

Annwyl Olygydd,
Bron iawn yn ddyddiol bellach
clywn rywbeth neu gilydd am
Dreth y Pen, sef y dreth newydd
fydd yn disodli trethi eiddo ym
mis Ebrill nesaf.

Serch hynny fawr iawn o wybo-
daeth clir a gawn am y dreth.
Oherwydd hynny ceisiaf esbonio
yn fras goblygiadau y dreth yma.

Yn syml iawn fydd rhaid i bob
oedolyn yng Nghymru, 2.1 mili-
wn o bobl dalu treth y pen. Tair
gwaith yn fwy na sydd o bobl yn
talw trethi. Bydd rhaid i'r di-
waith, myfyrwyr, rhai ar fudd-dal,
yr anabl a phensiynwyr dalu.

Ceir rhai eithriadau, megis:

- * plant sydd yn dal yn yr ysgol,
dan 19 efo budd-dâl plant yn
daladwy i'r rhieni;
- * pobl sy'n dioddef o anfantais
meddyliol difrifol (gyda nodyn
meddyg);
- * pobl sy'n byw yn bennaf neu'n
gyfangwbl mewn ysbyty;
- * oedolion sy'n byw yn bennaf
neu'n gyfan gwbwl mewn
cartref gofal neu hostel ac yn
derbyn lefel uchel o ofal;
- * oedolion sy'n gweithio fel
gweithwyr gofal gwirfoddol ac
yn byw gyda'r anabl neu
henoed;
- * mynaich a lleianod, cyn belled
nad oes ganddynt incwm na
chylafal;
- * carcharorion, onibai eu bont
yno am wrthod talu'r dreth;
- * pobl sy'n aros mewn hosteli
tros dro, er bydd staff yr
hosteli yn gorfod talu;
- * diplomyddion tramor.

Bydd yn rhaid i bob myfyriwr
dalw 20% o'r dreth i'r Cyngor lle
byddant yn byw yn ystod tymor y
colog. Mae hyn hefyd yn wir ar
gyfer pob nyrs sy'n fyfyrwr, sef y
mwyafrif llethol, yn gorfod talu'r
swm i gyd.

Bydd rhaid i bobl busnes hefyd,
rhai ohonynt hyd yn hyn wedi
meddwl y byddant yn well allan,
nid yn unig dalu treth y pen fel
unigolion, ond hefyd talu trethi ar
y busnes i'r llywodraeth ganolog.
Yn ogystal a hyn ceir ail-asesiad
trethianol yn ystod y pum
mlynedd nesaf sy'n rhwym o
godi'r trethi yn uwch fyth.

Ar hyn o bryd mae'r awdurdodau
lleol wrthi yn creu eu cofre-
stri. Nid yw union swm y dreth
wedi'i benodi eto oherwydd ni
wyr yr awdurdodau lleol faint o
gyllid y cant o'r llywodraeth
ganolog, ond yn ôl adroddiad

diweddar gan gwmni o gyfrifwyr,
Touche Ross, y bydd yn llawer
uwch na'r trethi presennol ac
mae'r unig ardaloedd yng
Nghymru a fydd yn elwa fydd
Mynwy, Bro Morgannwg a Gwyr,
tra fydd cymoedd y de a'r
ardaloedd gwledig yn dioddef yn
arw.

Cred Plaid Cymru fod y dreth
yma yn hollol anheg ac unwaith
eto yn edrych ar ôl y rhai
cyfoethocaf yng Ngwledydd
Prydain ar draul pawb arall. Yr
unig rhai fydd yn elwa o'r drefn
newydd fydd perchnogion y tai
mawr, mewn mannau fel de
Lloegr.

Oherwydd hynny mae Plaid
Cymru wedi penderfynnu
brwydro yn erbyn y dreth, ac yn
ymladd dros system decach o
dreth incwm lleol i bobl Cymru.

Os y carech gael rhagor o wybo-
daeth am y dreth, neu Plaid
Cymru, yna medrwch ffonio eich
swyddfa Plaid Cymru lleol neu
Dolgellau (0341) 422661.

Yn ddiifffuant,

ELWYN VAUGHAN,

Cadeirydd Plaid Cymru

Meirionnydd Nant Conwy.

CYNGOR ARFON ATEBOL I BWY?

Annwyl Olygydd,
Profiad siomedig ar y naw oedd
mynychu cyfarfod diwethaf
Cyngor Bwrdeistref Arfon.

Gwrthodwyd cynnig y
Cynghorydd Michael Roberts
dros roi blaenoriaeth i bobl leol ar
y rhestr tai cyngor. Gwrthodwyd
cais am gynrychiolydd i
Gynhadledd Dai a drefnir gan
Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ar
Fedi 23 yn Aberystwyth. Hyn, er
y bydd pob Cyngor arall yng
Ngwynedd a Dyfed ynghyd â
Chyngor Maldwyn a Glyndwr yn
bresennol, gyda'r bwriad o osod
cynigion pendant gerbron y
Swydd Gymreig ynghylch yr
argyfwng dai sy'n ein hwynebu.

Gallwn ond casglu bod yn well
gan Gyngor Arfon hybu cynlluni-
au twristaidd enfawr yng Nglyn
Rhonwy, Llanberis a Bae Hiracl,
Bangor, gan fynd yn gwbl groes i
farn pobl leol, na mynd ati i wei-
thredu polisïau fydd yn gweithio
er lles ein cymunedau a'n diwyl-
liant.

Fel etholwyr, dylem fynd at ein
Cynghorwyr a gofyn iddynt dros
beth maen' nhw yn bwrw pleid-
lais yn y Cyngor. Ai dros roi
chwarae teg i fuddiannau lleol
yntau ai dros roi rhwydd hynt i
gyfalafwyr ddod i mewn i Arfon
i'n hecsplioitio a thanseilio ein
ffordd o fyw?

Cyngor Arfon - atebol i bwy?

Yn gywir,

SIAN HOWYS

Is-Gadeirydd Cymdeithas yr

Iaith Gymraeg,

1, Stryd y Castell,

Caernarfon.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

ADLAIS O'R CHWYLDRO FFRENGIG

Fel y gwyddoch y mae'r arfer o gyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol o leiaf flwyddyn a diwrnod cyn ei chynnal yn parhau ers y flwyddyn 1176 pan gynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf yng nghastell Aberteifi.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf dim ond unwaith y methwyd a chwrdd a'r gofyn yma, ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd y bu hynny. 'Roedd Eisteddfod 1940 i fod i'w chynnal ym Mhenybont ar Ogwr ond gan i'r ardal yma gael ei rhestru ymhlith y canolfannau peryglus lle na ddylai tyrfaoedd gasglu ynghyd, penderfynwyd symud i Aberpennar.

Fe'i cyhoeddwyd yno ym Mai 1940 dri mis cyn y dyddiad ond erbyn Gorffennaf 1940 'roedd Aberpennar hefyd wedi ei ychwanegu at restr y canolfannau peryglus. Felly gyda phrin fis i fynd daeth y BBC i'r adwy a chafwyd yr Eisteddfod Radio enwog.

GORSEDD

Gorsedd Beirdd Ynys Prydain sy'n gyfrifol am seremoni'r cyhoeddi a honno'n cael ei chynnal yng nghylch yr orsedd.

Creadigaeth y bardd â'r cymeriad hynod hwnnw Iolo Morganwg 1746-1826 yw'r Orsedd ac erbyn hyn mae ei seremoniau'n rhan annatod o weithgareddau'r Eisteddfod.

Paham y dywedwn 'Gorsedd y Beirdd Ynys Prydain', oni fyddai 'Gorsedd Beirdd Cymru' yn fwy addas gofynnodd rhywun/ Efallai, ond yr oedd yr hen Iolo'n fachan digon craff, ac wrth osod 'Ynys Prydain' yn y teitl 'roedd am atgoffa pobl mai'r Brythoniaid neu'r Cymry oedd yn teyrnasu ym mhob rhan o Brydain am ganrifoedd cyn dyfodiad y Rhufeiniaid a'r Sacsoniaid, ac mai'r Cymry Cymraeg oedd etifeddion y gwareiddiad hynafol hwn.

Mater o falchder ei genedl felly i Iolo oedd rhoi 'Ynys Prydain' yn y teitl, a ffordd o ddangos mai 'newydd-ddyfodiaid' oedd y Saeson yr ymdroai yn eu plith.

Credai Iolo mai disgynyddion y Derwyddon, sef ceidwad y diwylliant Celtaidd oedd beirdd Cymru. Credai mai ef ei hun oedd disgynydd olaf y Derwyddon, ac i hyrwyddo'i neges fe ddechreuodd gynnal seremoniau a alwai yn 'Orseddau'.

Yn y rhain byddai'n adrodd neu lafar-ganu gweddiau ac yn urddo beirdd trwy roi rhuban neu gadach am eu braich. Ar Fryn y Briallu yn Llundain yn 1793 y cynhaliodd ei Orsedd gyntaf, ac wrth grwydro Cymru byddai'n cynnal Gorsedd yng nghwmni beirdd y gwahanol froydd.

Yn ddigon naturiol yr oedd llawer o bobl yn amheus o'r digwyddiadau hyn a chredai rhai fod a wnelo'r Orsedd rhywsut a'r Chwyldro Ffrengis yn gymaint felly nes ei gwahardd gan y Fyddin rhag cynnal Gorsedd ar Fynydd y Garth, ger Caerdydd, thag ofn iddo dynnu sylw llynges Ffrengig yn Sianel Bryste. Yr ydym wedi clywed llawer o sôn yn ddiweddar am y Chwyldro Ffrengig a'r dathlu ym Mharis. Dechrau digon cyffrous gafodd yr Orsedd felly.

Ni chredai Cynan yn 'hynafiaeth' yr Orsedd a rhoddai ei holl bwyslais ar yr hyn medr hi ei gyfrannu i'r Eisteddfod fodern.

O ganlyniad i'w waith mae'r Orsedd yn dal yn ei grym ac efallai'n fwy ei pharch nag y bu erioed.

ALAFON

Diolch i Mr John Griffith Jones, Ger y Ffynnon, Stâd Talybont, Llanrug, am anfon i ateb fy nghwestiwn y mis diwethaf, sef pwy oedd awdur yr englyn a welir ar garreg fedd Dewi Havesp ym mynwent Eglwys y Plwyf Llandderfel. Yr ateb ydyw mai Alafon yw'r awdur. Dyma'r englyn wedi ei gwblhau gyda'r wybodaeth gan J.G.J.:

Gan natur, pwy gawn eto – ail
Clod awen boed iddo; [Dewi
Ni ddaw rhôdd well i'n boddio
O law neb na'i englyn O.
Alafon

Er Cof am y

Ddau Ganwr Poblogaidd
(Owen W. Francis a'i frawd
Gruffydd, Nantlle)

Rhy dawel i roi deuawd – yw
Owen:
Tawodd yr hoff gymrawd;
I Ruffydd, brydydd a brawd,
Anodd fydd canu unawd.

Ioan Brothen

Ein llongyfarchion i Mrs Mary Lloyd Williams am fod yn destun y portread fideo Cymraeg cyntaf: 'Mari Lewis'. Mae ar werth yn y siopau lleol. [Golygyddion]

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

LLONGYFARCHIADAU i Wena Lloyd Williams, Stâd Eryri ar basio arholiad piano Gradd 5 gyda merit.

MERCHED Y WAWR: Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Fercher, 13 Medi, am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol. Y wraig wâdd fydd Myfanwy Parry, Penisa'rwaun yn sôn am 'Briodasferch y Flwyddyn'. Edrychir ymlaen at weld yr holl aelodau unwaith eto ac mae croeso cynnes i aelodau newydd.

PRIFARDD EISTEDDFOD LLANRWST: Llongyfarchiadau calonog iawn i Selwyn Griffith ar ei lwyddiant yn cipio coron Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst. Enillodd Selwyn y Goron am ddilyniant o gerddi ar y testun 'Arwyr'. Ymysg ei arwyr roedd Stanley Mathews, y peldroediwr enwog, Tommy Farr y bocsiwr a'r Parch R. L. Mathews a fu yn weinidog ym Methel am flynyddoedd.

CYDYMDEIMLO: Ar 3 Gorffennaf, bu farw Mr Elwyn Jones, Bryn Llwyd. Estynir ein cydymdeimlad a'r teulu yn eu profedigaeth.

Ar 15 Gorffennaf yng Nghapel Bethel cynhaliwyd angladd Mr O. R. Parry,

Llanrug. Yn enedigol o Fethel symudodd i fyw i Gaernarfon rai blynyddoedd yn ôl ac yna i Lanrug ond cadwodd gysylltiad agos a Bethel. Estynir pob cydymdeimlad â Mair, Dewi a'r teulu yn eu profedigaeth.

DYMUNIADAU GORAU: Yn ôl ein harferiad yr adeg yma o'r flwyddyn dymunwn y gorau i bawb sydd ar newid gyrfa ar ddechrau Medi. Dymunwn y gorau i'r plant bach sy'n dechrau yn yr Ysgol Feithrin a'r plant sy'n dechrau yn yr Ysgol Gynradd. Dymunwn y gorau hefyd i'r rhai fydd yn dechrau yn yr Ysgol Uwchradd a'r bobl ieuanc sy'n dechrau gweithio neu yn dechrau ar gwers coleg.

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati,

Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,


Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Am bob math o
WYDR wedi ei
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 870486

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

YSGOL GYMUNED CWM Y GLO:

Mabolgampau'r Urdd: Llongyfarchiadau i Paul Pointer a Darren Williams yn gwneud yn dda ym mabolgampau'r Sir ym Mangor. Daeth Paul yn 4ydd a Darren yn 1af am daflu pêl.

Taith Addysgol: Cafodd pawb fwynhad mawr ar y daith i Borthmadog, ar y trê i 'Stiniog ac yng Nghedwll Llechwedd. Yr hyn sy'n aros yn y cof a'r clustiau yw lleisiau Mrs Hughes a Mrs Orritt yn canu ar y ffordd yn ôl ar y bws. Profiad bythgofiadwy!!

Mabolgampau: Er gwaethaf tywydd anffafriol, cynhaliwyd Mabolgampau'r Pentref ar fuarth yr Ysgol. Daeth tyfa fawr ynghyd a chafwyd pnawn difyr o ymdrech a chwysu. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r raffls a'r gwobrau ac am eu cymorth ar y diwrnod.

Mabolgampau'r Ysgol: Er i bob man o'n cwrpas fod dan awyr dywyll a tharanau yn rowlio, haul oedd uwchben Cae Cwm y Glo. Pnawn chwiilboeth a gafodd y plant i redeg a neidio, chwysu a thuchan. Enillwyr y darian oedd Tim Bogelyn. Victor Ludorum, Darren Williams. Victrix Ludorum, Lola Davies. Pencampwr y Babanod: Kelly Jones.

Daeth nifer o rieni i gymeradwyo a rhyfeddu at gyflymdra Mr a Mrs Shaw yn y ras i rieni.

Diolch i Mr Williams (tad Terry a Keith) am roi ei bnawn rhydd i fyny i'n helpu.

Nofio: Cafodd Gareth a Lola Davies Fedal Aur am gynnal eu hunain yn y dwr. Gwaith da gan y ddau, ynte.

Ffair Gwyl Ifan, Llandwrog: 'Sgubodd arlunwyr o'r Cwm y bwrdd yng nghystadleuaeth arlunio y ffair. Gwobr 1af: Bryn Evans; Ail wob: Carwyn Humphreys, Sarah Wager; Trydydd wob: Paul Pointer, Kevin Williams, Terry Williams. Rhedeg: Cymerodd Martin Parry a Terry Williams ran yn Ras yr Wyddfa 1989. Chweched oedd Martin a Terry

yn ail, allan o un-ar-bymtheg. Da iawn wir, fechgyn.

Ffarwelio: Erbyn hyn mae Darren, Terry, Gareth, Paula a Louise, wedi troi eu golygon am Ysgol Brynrefail. Mae Mrs Morris hithau yn brysur ym Mangor. Ffarwelwyd â hwy yng ngwasanaeth olaf y flwyddyn a dymunwyd yn dda i bawb.

Yn yr un gwasanaeth cyflwynwyd tystysgrifau Beicwyr Medrus i Martin, Bryn, Bethan, Sara, Tony a David. Cofiwch y rheolau rwan blant - a chymaint o drafnidiaeth ar y ffyrdd yma.

Croesawu: Croeso cynnes iawn i Mrs Rita Williams i'r ysgol. Hi yw ein hathrawes babanod newydd. Gobeithio y byddwch yn setlo i lawr yn fuan Mrs Williams ac y bydd y plant bach newydd a chwithau yn cartrefu yn iawn yma.

Wel, dyna ni am y tro. Hwyl fawr. Yn iach a di-bechod y boch.

GRADDIO: Llongyfarchiadau i Jacqueline Hobby, Gernant, Allt Goch, ar ennill gradd B.A. yng Ngholeg Politecnig Sheffield.

LLONGYFARCHIADAU i blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau eleni. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

PROFEDIGAETH: Dydd Gwener, Awst 4ydd yn dawel yn ei gartref bu farw'r Parch J. E. Robinson, Manchester House. Treuliodd ei blentyndod yn Nhan-y-Coed ac yna bu'n gweinidogaethu yn Lloegr ac yn Airdrie, Yr Alban am 23 o flynyddoedd. Wedi ymddeol yn 1985 dychwelodd yn ôl i'w hen ardal ac ymgartrefu yng Nghwm-y-Glo. Bu'r angladd dydd lau, Awst 10, gyda gwasanaeth yng Nghapel y Tabernacl ac yn dilyn ym Mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parch Norman Robertshaw. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

PRIODAS: Dymuniadau gorau a phob dymuniad da i Medi,

merch Mr a Mrs Sam Jones, Bron Eryri a Gareth, mab Mr a Mrs Rhyswyn Jones, 33 Cae'r Saint, Caernarfon, a briodwyd yng Nghaernarfon ar 29 o Orffennaf. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn 13 Dôl Afon.

DIOLCHIADAU:

Dymuna Mrs Megan Jones, 21 Dôl Afon, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a ffrindiau fu mor garedig wrthi pan oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac ar ôl dod adre. Diolch hefyd am y galwadau ffôn, yr holl gardiau anrhegion a'r blodau hardd a dderbyniodd. Diolch hefyd i'r Parch Gwynfor Williams.

Hoffai Mrs Megan Jones a Susan, Dolafon, ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthynt pan gafodd y ddwy ddamwain car yn ddiweddar, ar y ffordd adre o'r ysbyty oedd Mrs Megan Jones pan y digwyddodd. Diolch hefyd i'r criw Ambiwylans a'r heddlu am eu gwasanaeth ac i feddygon Waunfawr am bob gofal. Diolch yn fawr.

Dymuna Mr Richard A. Roberts, 1 Bryn Gro, Cwm-y-Glo, ddiolch i'w holl deulu, ei gymdogion a'i ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a gafodd ar achlysur ei benblwydd yn naw deg.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Sandra Hughes, merch Mr a Mrs Richie Hughes, 10 Dôl Afon, ac Arwel Hughes, mab Mr a Mrs Wilbert Hughes, 11 Dôl Afon a briodwyd yng Nghaernarfon, 1 Gorffennaf. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn 22 Stryd Fawr, Llanberis. RAS YR WYDDFA: Llongyfarchiadau i Terry Williams, Bryn, am ddod yn ail yn Ras yr Wyddfa dan 12 oed, i Martin Parry, Glandwr, am ddod yn bedwerydd yn yr un ras ac i Chris Hobby, Gernant, am ddod yn bedwerydd yn y ras dan 18 oed.



**PEIDIWCH A GORI
AR STORI!
RHOWCH HI I'CH
GOHEBYDD LLEOL**

I gyfarch
RICHARD ROBERTS
1 Bryn Gro, Cwm-y-glo
ar ei benblwydd yn 90 oed

Rhyw ddeg a thrigain meddai'r Gair
Yw oes addewid dyn,
Ond y mae un yng Nghwm-y-glo
Sydd heddiw'n llawer hyn.
Er pe bai chwi'n ei weled o
Yn cerdded lawr y stryd,
Fe daerech wir nad yw y gwr
Ond ugain oed o hyd.

Mae'n ysgafn droed, mae'n egni byw,
Mae'n llawn o hiwmor iach,
A choeliwch fi, ni thry un dyn
Ei drwyn ar chwarae bach.
Bob dydd pan fydd yr hin yn deg
Fe'i gwelir yn yr ardd,
Yn tendio llysiau o bob math
A mwytho'r blodau hardd.

Mae'i ddiddordebau'n ddi-ben draw,
Caiff bleser ym mhob dim,
Ac os y tynnwch chi ei goes
Cewch ateb ddigon chwm.
Yn ddeg a ph adwar ugain iau
Mae'n dathlu ei benblwydd,
Wrth gymryd bywyd fel y daw
Mwynha ei ddyddiau'n rhwydd.

Cymeriad hynod ddiddan yw
Dic Robaits o Bryn Gro,
Sydd heddiw yn unigryw fel
Gwr hynaf Cwm-y-glo.
Llongyfarchiadau ddaw yn llu
O bobman yn ddi-oed,
A phawb mewn gobaith y caiff fyw
I ddathlu ei gant oed.
Robert Henry Parry.

CARNIFAL LLANBERIS 1978 - 1989

Mae cofnod o un-mlynedd-ar-ddeg o Garnifalau Llanberis wedi eu casglu ar fideo gan wr busnes lleol. Gellir prynu neu logi copi o'r fideo oddi wrth John Blight (Llanberis 870209).

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

YSTORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

**Ffôn:
Caernarfon 2790**

Ar agor:
Llun - Gwener: 7.30 - 6
Sadwrn: 8 - 5
Sul: 9 - 12
Eich siop leol hefo'r
oriau hwylus

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (831043)

MARWOLAETH: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 17 Mehefin, ar ôl cystudd blin, bu farw Yvonne Marwell Hughes, 38 Afon Terrace. Dymuna ei mham a'i phlant, ei brawd a'i chwaer a'r teulu oll ddatgan eu diolchgarwch am yr holl garedigrwydd a'r cydymdeimlad â ddangoswyd iddynt yn eu galar.

CYDYMDEIMLO:

— â Steve Tanfield a'r teulu yn eu profedigaeth o gollei ei dad.
— â Gwyneth Jones, 2 Dôl Elidir yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.
— â William Jones, Lynwen, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod a mam, sef Mrs Annie Blodwen Jones, Y Dreflan, Ffordd Capel Coch.

PRIODAS

— Yng Nghapel Cesarea, 1 Gorffennaf, priodwyd Anita Wyn Axon, unig ferch Mrs M. Axon, a'r diweddar Mr G. Axon, 8 Bro Arfon, Cesarea, â Gareth P. Jones, mab Mr a Mrs B. Jones, Garfield House, Llanberis. Llongyfarchiadau a phob lwc i'r ddau. Byddant yn ymgartrefu yn Ceunant, Llanrug.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd ein taith ddirgel ar nos lau, 29 Mehefin, ar noson heulog braf, i Ynys Môn. Aethom dros bont Britannia i Borthaethwy i weld y Pili Palas, yna ymlaen i Glantraeth, Bodorgan, lle 'roedd gwledd wedi cael ei darparu ar ein cyfer. Diolchwyd ar y bws i Mrs Dwynwen Roberts a Mrs Dilys Phillips am drefnu'r noson gan Mrs Jan Davies. Yng nghyfarfod mis Gorffennaf yn absenoldeb Mrs Hannah Jones llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Jan Davies.

Rhoddodd Mrs Betty Humphreys adroddiad manwl iawn o weithgareddau y Cyfarfod Blynnyddol yn Neuadd Albert, Llundain, ym mis Mehefin. Diolchwyd i Mrs

Humphreys a'r gwestwagedd gan Mrs Dwynwen Roberts. Y gwestwagedd oedd Mrs Jan Davies, Mrs Katie Williams a Mrs Dilys Phillips. Enillwyd y raffl gan Mrs Helen Morris. I ddiweddu'r noson cafwyd cwis wedi ei drefnu gan Mrs Katie Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Medi.

LLONGYFARCHIADAU:



— I Eleri Wyn Lewis, merch Cledwyn Parry, a'r ddiweddar Betty Parry, Glyder, Ffordd Capel Coch, Llanberis, ar ennill ei Doethuriaeth (Ph.D.) mewn maethyddiaeth ddynol ym Mhrifysgol Cymru Coleg Caerdydd. Cynhaliodd waith ymchwil ar faeth, datblygiad a chyflwr iechyd babanod a phlant ifanc o dan anfantais economaidd a chymdeithasol ac yn byw yn ardaloedd tlawd Gorllewin Morgannwg, yn Ne Cymru. Ar hyn o bryd darlithydd ym Mhrifysgol Cymru Coleg Caerdydd yw Eleri ond ym mis Medi eleni bydd yn cychwyn gyrfa newydd sbon gyda adran Addysg HTV Cymru yng Nghanolfan Deledu Croescwrlwys, Caerdydd. Dymunwn pob llwyddiant iddi yn ei gorchwyl newydd.

LLONGYFARCHIADAU

— I Melanie Sellars am gyflawni ei hyfforddiant gyda'r W.R.A.C. yn Guildford. Bydd yn dechrau

YMWELIAD CYFFROUS!



Roedd calonnau trigolion Llanberis yn curo'n gyflymach yn ddiweddar wrth weld yr injan dân leol yn prysuro tuag at Ysgol Gynradd Dolbadarn. Ond, roedd pawb yn hynod o falch o glywed mai mynd yno i gyflwyno gwobr oedd y dynion tân!

Enillodd Owain Peris Morris, 5 oed, gopi o Fideo Sam Tân mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan bapur newydd Y Cymro. Cyflwynwyd ei wobwr iddo gan Norman Jones, Derlwyn Jones a Tony Morris o'r Gwasanaeth Tân. Roedd disgyblion yr Ysgol Feithrin wrth eu boddau yn cael cyfarfod â'r tri, a'u hinjan dân sgleiniog!



ar ei hyfforddiant fel clerch yn Winchester ar 1 Medi. Dyma lun o Melanie ar derfyn cyfnod o hyfforddiant yn y fyddin yn Guildford ar 9 Awst.

— Llongyfarchiadau i'r rhai sydd wedi dathlu eu penblwydd yn ddeunaw oed ac yn un-ar-hugain yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst.

— I Mr a Mrs Hugh Jones, 79 Maes Padarn ar achlysur eu Priodas Aur.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i bawb o'r ardal sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y ddau fis diwethaf; hefyd y rhai sydd yn wael gartref.

DYMUNIADAU DA:

— I David Forrester-Addie, Hyfrydle, Warden Street, sydd yn dechrau cyfnod o wasanaeth am ddwy flynedd yn Londonderry, Gogledd Iwerddon. Bydd yn gwasanaethu gyda R.E.M.E. Llongyfarchiadau hefyd i'w frawd Heath ar gwblhau ei gwrs yng ngholeg Technegol

GWASANAETH FIDEO PROFFESIYNOL AR GYFER UNRHYW ACHLYSUR

- * Dyweddïad
- * Priodas
- * Pen-blwydd
- * Bedydd
- * Drama
- * Carnifal

Am fwy o fanylion cysylltwch â
John Blight
LLANBERIS
872 209

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman

LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa wythnosol. Dewch i weld ein amrywiaeth eang o fwydydd
Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta, Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych, Grawnfwydydd etc.

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL EICH ANGEN
AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

Am wasanaeth fframio cyflawn — LLUNIAU TYSTYSGRIFAU, TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD

Fframiwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS

870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch cartref os dymunwch

Bangor ac a fydd yn parhau gyda'i astudiaethau yng Ngholeg Polytechnig Lincoln. Meibion Mrs Awen Addie (gynt o Plastirion) yw David a Heath.

— I Jane a Gwynfor ar enedi-gaeth eu mab bach.

— I blant yr ardal sydd yn dechrau ar eu gyrfaedd newydd yn ystod mis Medi un ai yn y coleg neu mewn gwaith; hefyd y rhai sydd yn dechrau eu blwyddyn gyntaf yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

DIOLCHIADAU:

— Dymuna Gwyneth ac Eifion Roberts a Nia, Siop Eryri, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Nia ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed.

— Dymuna Stephen a Delyth Thomas, gynt o Maes Padarn, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu baban bach.

Dymuna Huw Griffith, Llainwen, ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn yr Ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref.

— Dymuna Nia Thomas, Maes Padarn, ddiolch i'w ffrindiau, ei theulu, a'i chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed.

— Dymuna Menai a Neil Jarvis ddiolch yn fawr iawn i'w rhieni, teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

— Dymuna Anita a Gareth Jones, Marvista, Ceunant, Llanrug, ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

— Dymuna Mr a Mrs Hugh Jones, 79 Maes Padarn, Llanberis, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am y llu anrhegion gwerthfawr, blodau a chardiau niferus; hefyd i'w mab Elfed a'i briod Jennifer a'i nith Avril am y parti

gwydych a drefnwyd ganddynt yn Bryn Eisteddfod, Clynnog, ar achlysur eu Priodas Aur.

— Dymuna Mrs Olwen Roberts, Argoed, Warden Street, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty.

— Dymuna Enid Ll. Roberts, Maes Padarn, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion ac am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra y bu yn yr ysbyty.

— Dymuna William Jones a theulu y ddiweddar Annie Blodwen Jones, Y Dreflan, 4 Ffordd Capel Coch, Llanberis, ddiolch o galon i berthnasau a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl. Diolch hefyd am yr holl lythyrau, cardiau, galwadau ffôn, sydd yn rhy niferus i'w hateb. Diolch arbennig i Arfon, Non, Enid, Agnes a Betty, staff Ward Mersey, Clatterbridge; Sister Williams, meddygon a staff Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd; meddygon teulu a nyrsus lleol; Y Parchedigion Alun J. Hawkins, Gwynfor Williams, John Pritchard a W. R. Williams, ac i Mr Myrddin Pritchard am drefniadau trylwyr.

— Julian 'MO' Anthoine. Dymuna John ac Ellen Phillippe, Yeovil, Somerset, ddatgan eu diolch yn gywir iawn i gyfeillion o Lanberis am bob arwydd o gydymdeimlad â ddangoswyd i'w merch, Jacqueline, yn ei phrofedigaeth yn ddiweddar, ac am bob caredigrwydd a chymwynas ar hyd y blynyddoedd.

ER COF am Hetty Hughes, gwraig a mam annwyl a charedig fu farw Awst 30ain, 1984. 'Cwsg a gwyn dy tyd.' — Bob, Elizabeth, Griff ac Eluned.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, 10 Mehefin, yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, priodwyd Neil A. Jarvis, mab Mr a Mrs A. Jarvis, Manorbier, Dinbych y Pysgod, a Menai W. Jones,

merch Mr a Mrs S. Jones, Dôl Elidir, Llanberis. Yr organydd oedd Gareth Jones. Gwasanaethwyd gan y Rheithor, y Parchg A. Hawkins. Y gwas oedd Mark Jarvis, y tywysyddion oedd Bryn, Dylan a lolo Jones. Y morynion oedd Karen Williams, Bethan, Llinos, Sarah a Caroline Jones. Y gwas bach oedd Kenny Jones. Cynhaliwyd y wledd briodas i 80 yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, gyda disco gyda'r nos. Treuliwyd y melrawd yng ngwlad Groeg. Pob dymuniad da iddynt.



NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming, 'Dolwen', 8 Nant Ffynnon (871457)

CYDYMDEIMLWN â Jacky, Jo a Billy Anthoine a'r teulu a'r teulu yn eu profedigaeth o golli gwr a thad annwyl, sef Julian 'MO' Anthoine, a fu farw, Awst 12fed yn ei gartref, Ty'n Ffynnon, ar ôl gwaeldd hir. Bu'r angladd yn Eglwys St. Peris ar Awst 18fed ac fe gladdwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris.

CYDYMDEIMLWN hefyd â theulu Mrs Sally Lloyd Jones, gynt o 3 Bro Glyder, a fu farw yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

PRIODAS: Ar y 17 Mehefin, yn Eglwys Sant Mihangell, Aberystwyth, priodwyd Elise Tomos, Musbach, merch Mr a Mrs Graham Tomos, Manor, Porthyrhyd a Hefin Michael Williams, M.A., mab Mr a Mrs Noel Williamst, Nant-y-Glyn, Llanrug, a wyr i'r diweddar Mr a Mrs Elias Griffith, Awelon, Nant Peris. Gwasanaethwyd gan y Parch R. Bell, B.A., a'r Parch Goronwy Wynne. Y forwyn briodas oedd Miss Lowri Jones a'r gwas priodas oedd Mr Derrick Douglas, B.A. Y tywyswyr oedd Mr David Ellis, Edward Jones a Ian Jameson. Mwynhawyd y wledd briodas yng Nghesty'r Bay. Dymuna Elise a Hefin ddiolch o galon i'w perthnasau a'u ffrindiau am

y llu anrhegion a chardiau. Byddant yn gwneud eu cartref yn Aberystwyth, lle mae Hefin ar staff y Llyfrgell Genedlaethol.

JULIAN 'MO' ANTHOINE: Dymuna John ac Ellen Phillippe, Yeovil, Somerset, ddiolch yn gywir iawn i drigolion Nant Peris am bob arwydd o gydymdeimlad â ddangoswyd i'w merch Jacqueline yn ei phrofedigaeth, ac am bob cymwynas a charedigrwydd ar hyd y blynyddoedd.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr

LLANBERIS

FFÔN:

LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

DYMUNIADAU DA: Pob dymuniad da a hapuswydd i Dilwyn John a Karen ar achlysur eu priodas yng Nghaernarfon ar Orffennaf 15ed.

Llongyfarchiadau i Wil Huw Griffith, a Dilwyn Green hefo'u ceffylau gwedd a'r ier mewn sioeau yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Gwynfryn Williams, Trem Cynfi, ar gael ei ddewis i gynrychioli Cymru hefo codi pwysau ym Mwlgraria o Awst 30ain hyd Medi 9fed.

LLWYDDIANT:

Llongyfarchiadau i Norah O'Brien (Munro gynt) ar ei phenodi yn Brifathrawes Ysgol Llanbedr, Dyffryn Clwyd. Deallwn ei bod wedi cael llawdriniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl a hyderwn ei bod wedi gwella erbyn hyn. Dymuniadau da hefyd i'w mab Peter O'Brien sy'n dilyn cwrs milfeddygaeth yng Ngholeg Caeredin. Enillodd anrhydedd mewn pedwar pwnc yn arholiadau ei flwyddyn gyntaf.

Rydym yn hynod falch hefyd o gyhoeddi fod Ffion Larsen wedi ennill gradd B.A. mewn Seicoleg yng Ngholeg Sussex. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Sion Rees Williams ar ennill gradd LL.B. yng Ngholeg Politecnig Huddersfield.

Ac i chwithau blant fu'n sefyll arholiadau level A a TGAU, llongyfarchiadau calonnog i bob un ohonoch a phob llwyddiant i chwi yn y colegau a'r chweched dosbarth. Da iawn chwi!

YMDDEOLIAD: Dymunir ymddeoliad hapus a dedwydd i Phyllis Ellis, Rhosfair, sydd wedi ymddeol fel prifathrawes Ysgol Babanod Maesincla; ac i Leslie Jones, Meillionydd a fu'n brifathro yn y Waunfawr. Mwynhewch eich ymddeoliad.

GENEDIGAETH: Mae'n siwr fod Mrs Percy Williams wedi gwirioni hefo Dylan, bachgen bach a anwyd i'w wyres Carys. Llongyfarchiadau i'r hen nain, i nain a taid, Glenys a Ken,

Trem Cynfi, ac i Carys a Gareth, Y Groeslon. Croeso mawr hefyd i Darren mab bach Marie.

Y mae anrhegion penblwydd a Nadolig Pat a Leslie Larsen yn cynyddu o hyd! Y mis hwn llongyfarchwn Cai a'i wraig ar enedigaeth eu mab Gwion. Llongyfarchiadau i chi fel teulu. **PROFEDIGAETH:** Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, ar Awst 12fed bu farw Mr Idris Humphreys, tad annwyl Myra a Selwyn Griffith a William ac Ann Humphreys, Bethel. Ein cydymdeimlad dwysaf â chwi oll fel teulu.

GWELLHAD: Ein cofion annwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref a gobeithiwn fod Nathan Jones yn well wedi triniaeth yn yr ysbyty. Rydym yn falch fod Mrs Evans, Llys y Gwynt yn well ac anfonwn ein cofion atoch chwithau Mrs Nesta Jones sydd bellach yn y Foelas. Rhywbeth sy'n caethiwo rhywun yw torri coes ynte? - wel, Elinor, Bryn Rhydd, dymunwn adferiad buan i chi wedi ichwi dorri'ch coes yn ddiweddar.

DIOLCH: Er gwaetha'r glaw mân ar Orffennaf 8fed, fe fwyhaodd pawb y trip i'r Rhyl. Dymuna pawb ddiolch i Ann Paterson ac Elizabeth Jones am wneud y trefniadau. Diolchir eleni eto, i Mr Hoskinsons, Pant Afon, am ei haelioni. Fe dderbyniodd pob plentyn ar y bws £1 yr un.

YSGOL SUL BOSRA: Bydd yr Ysgol Sul yn ail agor fore Sul, Medi 10fed am 10 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau newydd.

PWYLLGOR Y NEUADD: Gorffennaf 7fed cafwyd Fideo o Briodferch y Flwyddyn yn yr Ysgol. Daeth cynulliad teilwng a diolchir i Myfanwy a Dic Parry am noson lwyddiannus iawn. Tynnwyd Clwb Cant Mehefin, a'r enillwyr oedd Judith Hardin, Einion Williams a Tom Davies, Tai Newyddion. Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf

yn Sycharth a'r enillwyr oedd, Pat Larsen, Emyr Williams a Jennie May Jones. Fore Sadwrn, Awst 19, gorchwyl cyntaf y Prifardd Selwyn Griffith oedd gollwng 410 o hwyaid melyn i afon Seiont yn Stablau. Bu'n Ras Hwyaid gyffrous, a diolchwn i'r pysgotwr a'r rhwydwr Arwel Jones am sicrhau fod pob hwyaden yn cael chwarae teg a bod pob un yn ôl yn y sach ar ddiwedd y ras. Er fod 410 ar ddiwedd y ras roedd tair ymhell ar y blaen, sef 291: Sioned Larsen, Caernarfon; 368: Jonathan Williams, Llanfairpwll; 9: Menna Wyn, Tan Dderwen, Llanddeiniolen.

Llongyfarchiadau i'r enillwyr - enillodd y dair hwyaden wobrau o £20, £10 a £5 iddynt. Diolchir i bawb a fu'n gwerthu ac yn prynu'r hwyaid. Ein diolch hefyd am gael caniatâd i ddefnyddio'r afon ac i droedio'r tir. Gwnaed elw sylweddol at Gronfa'r Neuadd Bentref. Diolch yn fawr. Tynnwyd Clwb Cant Awst a'r enillwyr oedd: 1, Gwilym Evans, Penygroes; 2, Delyth Williams, Cae'r Bythod; 3, Rhian Williams, Cae'r Bythod.

Y CARNIFAL fydd gweithgareddau Medi o'r Sul 11fed hyd Sadwrn 16eg.

Nos Sul: Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen gyda Band leuenctid Deiniolen.

Nos Lun: Bingo gyda Helen Owen yn Neuadd yr Eglwys.

Nos Fercher: Noson i blant yr Ysgol Gynradd a Dosbarth 1, 2, 3 Ysgol Uwchradd.

Nos Wener: Noson o Fideo.

Sadwrn: Y Carnifal am 2 ym **Mhant Hywel.** Gorymdeithir o'r Cae Chwarae.

'Hwyl a Miri Calangaeaf', a gawn ym mis Hydref.

YSGOL TAN-Y-COED: Pob dymuniad da i chi blant sy'n cychwyn eich gyrfa yn yr Ysgol Uwchradd a chroeso cynnes i'r disgyblion ifanc sy'n cychwyn yma yn Nhan-y-Coed.

Dymunwn pob hapuswydd i Mr Len Jones yn ei swydd newydd fel Athro Ymgynghorol yn y Gymraeg, a hyderwn y try

i mewn i'n gweld o dro i dro. Croesewir Mr Selwyn Jones, fel Prifathro Dros-dro. Gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

'AC AR EI BEN BO'R GORON': Blwyddyn gron i rwan roeddem yn siarsio Selwyn Griffith i wisgo'r goron yn Llanrwst. Gan ei fod wedi bod yn ail ddwywaith, wele'r drydedd bryddest yn ennill iddo Goron hardd yn Eisteddfod Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau. Ymfalchiwn fel pentrefwyr yn ei lwyddiant a chyd-rannwn yr hapuswydd â Myra ac Euron. Llongyfarchiadau mawr i'r Prifardd Selwyn Griffith, Crud yr Awen.

Bu enw Penisa'rwaun yn amlwg iawn ar lwyfan yr Eisteddfod eleni. Enillodd Nant Roberts y wobwr gyntaf am dair Ysgrif Fer. Llongyfarchiadau mawr iddi a dalied ati. Daeth Eifion Harding yn ail ar yr Adrodd Digri, ac roedd Nia Lewis yn aelod o Fand leuenctid Deiniolen a gipiodd y wobwr gyntaf. Gwelwyd Dafydd Ifans, Leslie Jones, Len Porter, Ieuan Williams, Huw Davies a Judith Harding ar y llwyfan hefyd ac Arwel Jones yn y Babell Llen. Llongyfarchiadau hefyd i'r grwp Brâs, sef Dylan Price Williams a'i gyfeillion Bryn Thomas o Lanrug a Howard Jones o Ddeiniolen ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth ym Mhabell y Cremlin i grwpiau i berfformio cân roc, bop neu werin wreiddiol. Da iawn hogiau. Mae'r pentref yn gyforiog o dalentau.

CYFARFOD I GYFARCH Y PRIFARDD SELWYN GRIFFITH: Bwriedir cynnal noson gartrefol i longyfarch y Prifardd Selwyn Griffith, nos Iau, Medi 7fed yn Neuadd yr Eglwys. Croeso cynnes i bawb.

CLWB YR HEULWEN: Treuliwyd diwrnod braf ym Mhwlheli ac Aberdaron, ddydd Mercher, Gorffennaf 26ain. Diolchir i Mary Davies am wneud y trefniadau. Bydd y Clwb yn ail gychwyn, Medi 19eg yn Neuadd yr Eglwys.


DAFYDD JONES
SAER/JOINAR
2 Tai Caledffrwd
Clwt-y-Bont
Ffôn 872424
Gwneud a gosod grisiau, ffenestri, drysau etc.

Dim un Joban rhy fach!

Gwasanaeth Llogi Cerbydau
SEGONTIUM
CAR . VANHIRE
Cerbydau Pickup, Luton Cargo
a Bysus Mini
Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir
MODURDY LLEIOD,
CAERNARFON Ffôn: 2013

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon
5754

LLUNIAU O FFESANT A'R DYLLUAN FACH AR WERTH



APÊL EISTEDDFOD YR URDD NANTLLE AC ARFON: Mae'r pwyllgor wedi comisiynnu Islwyn Williams, yr arlunydd natur enwog, i wneud dau ddarlun, o ffesant a thylluan i'w gwerthu er budd y Gronfa. Argreffir 250 yr un o'r lluniau, ac fe rifir ac arwyddir pob un gan yr arlunydd ei hun. Pris: £28.50 yr un mewn ffrâm; £47 am bâr; £15 yr un heb ffrâm; £25 am bâr.

EGLWYS SANTES HELEN: Bore Sul, Awst 13eg, bedyddiwyd Iwan Wyn, mab bychan Heddwen ac Irfon Hughes, Waun gan y Parchg Tegid Roberts. Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn ar y 10fed o Fedi.

DOSBARTH CONFFYRMASIWN. Bydd dosbarth Conffyrmasiwn yn cael ei gynnal yn yr Eglwys o ddiwedd Medi ymlaen am y deunaw neu ugain wythnos wedi hynny. Os oes ymgeiswyr sy'n awyddus i gael eu conffirmio yna cysyllter â'r Parch Tegid Roberts. Ffôn 870760 cyn yr wythnos sydd yn diwedd 8 Medi 1989.

I AWSTRALIA: Dymunir pob hapusrwydd i Susan a Trefor Rowlands a'r hogiau Daniel, Ben a Matthew sydd wedi mynd i fyw i Awstralia. Gobeithiwn glywed oddi wrthynt. Cofiwch 'sgwennu atom i'r ysgol hogiau.

CROESO: Croeso cynnes i Mr a Mrs Bryn Hughes, Gareth a Dylan, sydd wedi ymgartrefu ym Mryn Hywel.

DIOLCH: Dymuna Myra Griffith, Crud-yr-Awen, Penisa'rwaun, ddiolch i bawb a

fu mor garedig wrthi yn ei phrofedigaeth o golli ei thad Idris Humphreys.

CEUNANT

Gwenno Parri, Morawel

LLONGYFARCHIADAU i Glyn a Sandra Jones, Penhafodlas ar enedigaeth mab, Christopher David, brawd bach i Karen a Paul. **CYDYMDEIMLO:** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Evelyn Williams, Tyddyn Ni, ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar.

CROESO i'r Ceunant i Gareth ac Anita Jones sydd wedi ymgartrefu yn Marvista. Ein dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

HEN LUNIAU ARDAL YR ECO

Mae'r casgliad a fu'n cael ei ardangos yn Oriel Eryri, Llanberis, bellach wedi ei ddidoli a'i 'olygu'. Mae'r golygyddion - Arwel Jones a Dafydd Whiteside Thomas - wrthi ar hyn o bryd yn paratoi'r deunydd ar gyfer y wasg. Gobeithir y bydd y llyfr ar gael cyn y Nadolig.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Caernarfon 3536

O'R CYNGOR: Bydd y gwaith o ymestyn y palmant rhwng y festri a'r garej yng Nghaeathro yn cael ei gwblhau eleni yn ôl y Cyng Eurig Wyn sy wedi bod yn pwyso ar y Cyngor Sir ynghylch y mater ar ran y pentrefwyr.

Dywedodd Eurig Wyn: 'Mae hyn yn newyddion da i Gaeathro, gan fod y palmant fel yr oedd, yn creu peryglon i bobol yn cerdded o'r pentre i'r garej.' Bu'r Cyng Wyn yn ymweld â'r safle yng nghwmni swyddogion o'r Adran Briffyrdd.

LLONGYFARCHIADAU i holl blant y pentref sydd wedi llwyddo yn eu haroliadau eleni.

- i Julia Burns ar ei phriodas â Einion Thomas;

- i Gwenno Hughes, Ty Mawr ar ei phenblwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

GWELLHAD BUAN i Mrs Jean Williams, 19 Rhes Glangwna a fu yn Ysbyty Lerpwl yn ddiweddar.

GWASANAETHAU'R CAPEL: Pregethir gan y canlynol am 2 o'r gloch y prynhawn yng Nghapel y pentref - Medi 3: Gwynfa Roberts; 10: W. R. Williams; 17: G. Hughes; 26: H. Jones Parry.

GWASANAETH BWS: O ddydd Llun, Medi 18fed ymlaen bydd bysus Crosville yn gadael y pentref i Gaernarfon am 8.35, 10.35, 11.35 yn y bore; 12.35, 1.35, 2.35, 4.20, 4.50, 6.10, 6.35, 7.15 a 10.15 yn y prynhawn a gyda'r nos. Hefyd o ddydd Sul, Medi 17 bydd gwasanaeth ar y Sul trwy'r flwyddyn, gyda bysus o'r pentref i'r dref am 10.55, 1.55, 4.55 a 7.55. O Gaernarfon i'r pentref: 9.20; 11.10, 12.10, 1.10, 2.10, 2.50, 3.50, 5.10, 5.45, 6.45 a 9.50 o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn. Ar y Suliau bydd bysus am 10.30, 1.30, 4.30 a 7.30.

PLAID CYMRU: Gan fod y pentrefwyr yn ffurfio Ward o ardal Cyngor Cymuned Waunfawr ar Gyngor Bwrdeistref Arfon, bydd aelodau'r Blaid yn y pentref yn trosglwyddo i gangen Waunfawr eleni, onibai fod gan unigolion reswm i ymaelodi â changen arall. Bydd Clive James yn casglu'r tâl aelodaeth yn ystod

mis Medi.

SIOE'R PENTREF: Unwaith eto roedd nifer y cystadleuwyr yn isel, a lleihad hefyd yn y nifer a alwodd heibio i weld y cynnyrch ac i gael sgwrs a phaned. Fodd bynnag, roedd safon yr eitemau yn uchel unwaith eto, gyda'r ddau feirniad yn hapus. Ar ôl y sioe roedd rhai yn addo ymgeisio'r flwyddyn nesaf ar ôl sylweddoli fod ganddynt bethau o'r un safon adref. Mae gobaith y bydd adfywiad yn y sioe y flwyddyn nesaf. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod ar 18 Medi am 7 yr hwyr yn y Festri, gyda chroeso i bentrefwyr alw heibio i helpu i gynllunio ar gyfer Sioe 1990.

Yr enillwyr eleni oedd:

Dosbarth 1 (blodau) - Tarian Rhif 1-6: Deiniol Hughes; Rhif 7-9: Bryn Griffiths; Rhif 10-13: John Ifor Hughes; Rhif 14-17: John Ifor Hughes; Cwpan Plas Treflan: John Ifor Hughes.

Dosbarth 2 (llysiau) - Tarian 1-4: Tony Griffiths; 5-8: Clive James; 9-12: Deiniol Hughes; 13-17: John Pritchard; 18-21: John Ifor Hughes. Cwpan Cefn Gôf: John Ifor Hughes; Cwpan Clwb Garddio: Deiniol Hughes.

Dosbarth 3 (coginio) - Tarian 1-3: Einir Roberts; 4-5: Heather Jones; 6-7: Alwen Hughes; 8-10: Einir Roberts; 11-15: Ffion Medi Hughes; 16-18: Alwen Hughes; 22-24: Gwenno Hughes. Cwpan Clwb Merched: Einir Roberts.

Dosbarth 5 (gwau). Enillydd: Heather Jones.

Dosbarth 5 (plant) - A1: 1, Catrin Roberts; 2, Rhys Roberts. A3: 1, Catrin Roberts; 2, Rhys Roberts. B1: Elfyn Roberts; B4: Gareth Griffiths; C1: 1, Manon Fflur Hughes; 2, Ceri Ann Roberts; 3, Lois Angharad Roberts. C2: Eirian Roberts; C3: 1, Manon Fflur Hughes; 2, Lois Angharad Roberts; 3, Ceri Ann Roberts.

GER-Y-TÂN: Bydd y tymor yn ail ddechrau ar 27 Medi gyda noson allan! Croeso cynnes i bawb, yn hen aelodau a newydd.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.



DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

YR YSGOL FEITHRIN: Bu diwedd tymor yr haf yn un prysur ryfeddol i blant, athrawon a chyfeillion yr Ysgol Feithrin. Yn dilyn llwyddiant perfformiad y plant hynaf ym mhasiant y Mudiad Ysgolion Meithrin yn y Waunfawr ar Fehefin 17eg, cafwyd ail berfformiad ganddynt yng nghyngerdd y carnifal ar Orffennaf 5ed, pan oedd festri capel Ebeneser dan ei sang. Yna, ar Orffennaf 13eg, aeth llond bws ohonom i dreulio'r diwrnod yn Hen Blas, Bodorgan, lle'r oedd cyfleusterau chwarae dan do i'r plant ymysg pethau eraill. Daeth y tymor i ben gyda pharti Stellaware i'r mamau yn yr Ysgol Feithrin ar nos Wener, Gorffennaf 14eg – arwerthiant dilladau o bob math, a'r rheini i gyd yn rhai rhesymol iawn eu pris.

Ar ddechrau tymor a blwyddyn newydd hoffem ddiolch yn dalpiau i Anti Carol ac Anti Val am eu gofal a'u hamynedd gydol y flwyddyn a aeth heibio. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd ein hymdrechion i godi arian yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaithar yr adeilad bellach wedi'i ddechrau, a mawr hyderir y bydd wedi'i gwblhau cyn y gaeaf.

Dymuniadau gorau i'r criw mawr o blant sy'n symud dros y ffordd i Ysgol Gwaun Gynfi a chroeso cynnes i unrhyw blant newydd sydd ar eu ffordd atom. Bydd yr ysgol yn ail agor am 9 o'r gloch fore Mawrth, Medi 5ed.

Ar nos Fawrth, Medi 12fed, cynhelir y cyfarfod blynyddol yn yr Ysgol Feithrin am 7 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb â dioddordeb yn nyfodol yr Ysgol Feithrin i ymuno â ni bryd hynny. Dewch draw am baned a sgwrs.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan, ar Gorffennaf 3ydd, o dan arweiniad Mrs Eirlys Haydn Jones, y Llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a chroesawodd y wraig wâdd, sef Mrs M. E. Jones, Cricieth. Cawsom noson ddifyr gan Mrs Jones yn dweud ei hanes ar ei gwyliau ar Ynys Enlli. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Glenys Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs H. J. Thomas a Mrs Mannon Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Joan Parry. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 4ydd.

CLWB ELIDIR: Ar y 13eg o Fehefin cafwyd cyfarfod o'r Clwb uchod, y diwethaf o'r tymor, pryd y treuliwyd y prynhawn yn chwarae gemau a gwneud y trefniadau terfynol ar

gyfer y trip blynyddol. Rhoddwyd y te gan Mrs Megan P. Morris, Mrs Sally Lewis, Mrs Eirlys Ll. Jones a Mrs Alwen Jones. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Sally Lewis, gan Mrs Dilys Thomas. Anfonwyd cyfarchion am wellhad buan i Mrs Idwen Thomas a Mrs Blodwen Parry. Cafwyd rhodd anrhydeddus o £70 tuag at y trip trwy law Mr Alun W. Evans yn ôl ei arfer bob blwyddyn, a diolch yn arbennig i Mrs C. Roberts, Y Bull, a Mrs D. Owen, Y Wellington, am eu cymorth parod yn caniatáu yr ymdrech yma bob blwyddyn. Cafwyd rhoddion eraill gan Mrs Dilys Pritchard a Mrs Meira Rowlands, ac hefyd dwy botel o win i'w rafflo ddiwrnod y trip, rhoddion Mr Evan B. Roberts, a Di-enw o Lanberis, a gwnaed elw sylweddol. Diolch yn fawr iddynt. Dymunwyd penblwydd hapus i Mrs Megan P. Morris. Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Medi ar ôl gwyliau'r haf, a chroeso i aelodau newydd sydd yn awyddus i ymuno.

UNDEB Y MAMAU: Bydd cyfarfod o gangen Llandinorwig yn yr Eglwys am 7 o'r gloch, nos Fawrth, 5ed o Fedi.

Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i'r Seindorf leuenctid ar ennill y wobrgyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst.

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Awst: 1, £20 (rhif 205), Mr Windsor Williams, Tai Marian, Deiniolen; 2, £15 (rhif 195), Harry Jones, Sail Loft, Felinheli; 3, £10 (rhif 208), John Green, c/o Caradog.

BADAU ACHUB: Eleni yr oedd Cangen Caernarfon yn dathlu 50 mlynedd o gasglu tuag at y Badau Achub (R.N.L.I.). Yn ardal Deiniolen y casglwyr oedd Misses Elena a Hayley Williams (£7.37); Mrs Glenys Marzelos (£17.22); a Mathew Hughes (£10.10); yn gwneud cyfanswm o £34.69. Yr oedd hyn yn helpu i wneud cyfraniad Ardal Caernarfon yn £2,788.97. Diolch i bawb am eu hymdrech.

CYNGOR EGLWYSI: Bu Cyngor Eglwysy'r pentref yn tynnu allan raglen gweithgareddau ar gyfer tymor y Gaeaf nesaf. Etholwyd Jane Eirlys Williams yn Llywydd, y Parchg. John Pritchard yn Is-Llywydd, a Jane Thorman Jones yn Drysorydd. Bu Idwal Jones yn Drysorydd y Cyngor am nifer o flynyddoedd, ac wrth iddo ymddiswyddo talwyd diolch cywir iddo am ei ofal manwl tros weddau ariannol y Cyngor.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd



Aelodau o Fand Deiniolen a ddaeth yn ffuddugol ar gystadleuthau unigol yn Eisteddfod Llanrwst.

yn festri Ebeneser ar 3 Gorffennaf talwyd diolch cynnes i'r Cyn-Llywydd, y Parchg Ifor Ll. Williams am ei ffyddlondeb a'i arweiniad i'r Cyngor am y pymtheng mlynedd diwethaf. Wrth gyflwyno rhodd fechan i Mr Williams fel arwydd o werthfawrogiad y Cyngor o'i wasanaeth a'i gefnogaeth tros y cyfnod hwnnw, manteisiodd y Llywydd ar y cyfle i ddymuno hir oes a hapusrwydd iddo ar ei ymddeoliad ddiwedd Awst. Ategwyd geiriau'r Llywydd gan y Parchg Eryl Blainey gan gyfeirio at gyfraniad arbennig Mr Williams i'r cydweithio hwy-lus a fu rhwng Gweinidogion y pentref yn y gorffennol.

DIOLCH: Dymuna teulu y ddiweddar Catherine Jane Jones, 33 Hafod Oleu, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch arbennig i'r meddygon teulu ac hefyd i Nyrs Tom Jones. Diolch hefyd i ferched Capel Libanus am ddarparu y te cynhebrwng. Diolch yn fawr.

—Dymuna Karen a Michael, Hafan, 8 Cyfni Terrace, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

—Dymuna Beryl ac Owie Hughes, 50 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w teulu, a'u ffrindiau, am yr anrhegion a'r llu cardiau a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas rudem yn ddiweddar.

—Dymuna Ffion Haf Williams, Ty'r Heddlu, Deiniolen, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a phawb am yr anrhegion a'r arian â dderbyniodd ar achlysur ei choroni yn dywysoges carnifal Deiniolen 1989.

—Dymuna Lyndsey ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar achlysur o fod yn Frenhines Carnifal Deiniolen 1989.

—Dymuna Gwyndaf a Gwenlli, Maes y Bryn, Pontrug, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU i'r Frenhines Lyndsey, Tywysoges Ffion a'r cwrt am eu llwyddiant mewn cystadleuthau ac mewn carnifal yn ddiweddar. Bu'r ddwy mewn llawer carnifal yn cynrychioli Deiniolen a hefyd mewn cystadleuaeth Breninesau yng Nghaernarfon a Bangor. Pob lwc yn y dyfodol.

URDD 1989: Mae angen llawer eto o arian tuag at y gronfa uchod. Os oes rhywun a diddordeb i gystylltu a Mrs Pat Thomas, neu unrhyw un o'r pwyllgor.

MARWOLAETH: Ar ddydd cyntaf Mehefin bu farw Mrs Catherine Jane Jones, 22 Hafod Olau, yn 85 mlwydd oed. Yn weddw ers deugain mlynedd ni chafodd twynhau iechyd llawn gydol ei hoes, a goddefodd gystudd ei dyddiau olaf yn ddirwgnach. Yn y gwasanaeth angladdol a gynhaliwyd yng Nghapel Libanus, ar 5ed Mehefin, dan ofal ei Gweinidog, Y Parchg Ifor Ll. Williams, cyfeiriodd Mr Williams at ei haelioni di-arbed, ac at ei theyrngarwch arbennig

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545

i'r Achos yn Libanus, Clwtybont. Eiddunir diddanwch i'r teulu yn eu colled.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, 24 Mehefin, yng Nghapel Cefn-y-Waen, Deiniolen, priodwyd Karen Wyn Hughes, merch Mr a Mrs Bryn Wheldon Hughes, â Mr Michael Wyn Talor, mab Mr a Mrs J. L. Talor, 60 Lôn Eilian, Caernarfon. Gwasanaethwyd gan y Parch. John Pritchard. Y mae'r par ifanc wedi gwneud eu cartref yn Hafan, 8 Cyfni Terrace, Deiniolen.



PRIODAS GWYNDAF A GWENLLI: Ar Awst 5ed, yng Nghapel Cefn-y-Waen, Deiniolen, priodwyd Miss Gwenlli Roberts, Crud yr Awel, â Mr Gwyndaf Jones, 9 Tan y

Foel. Gwasanaethwyd gan y Parch. Ronald Wyn Roberts, ewythr y briodferch a'r Parch D. J. Pritchard. Yr organyddes oedd Miss Helen Mair Jones. ei morynion oedd ei thair cyfneither, Della, Emma a Sioned. Y gwas priodas oedd Mr Eifion Jones, ffrind y priodfab; a'r ystlyswyr oedd Tegid Roberts, brawd y briodferch a Jason Jones, brawd y priodfab. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Carreg Brân, Llanfairpwll, gyda 93 o wahoddedigion. Tynydd y blodau oedd Mrs Janice Land, Cae Hob. Gwnaed y gacen gan y briodferch, a Mrs Gracie Davies, Bethesda oedd yn gyfrifol am ei haddurno. Byddant yn ymgartrefu ym Maes y Bryn, Pontrug. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.



Y DAITH DDIRGEL

Rhyw daith bach i siopio yn P'esda
Dyna feddyliodd Sion Daf i ddechra
Ac i'r van a fo, gyda Wil a'i gi
Yn ddiniwed hollol, wyddoch chi.

Ond gadawyd Pesda, ac i fyny Nant Ffrancon
Meddyliodd Sion am brês, tybed oedd ganddo ddigon
Chwiliodd ei bocedi yn fyr ei wynt
Ac o drugaredd cafwyd papur pum punt.

Pryderai'r hen Siôn, mae'n mynd i oed,
A hwythau'n awr yn Betws-y-Coed
Dim aros ond trwodd ar ffrwst
Ac mewn byr amser, cyrraedd Llanrwst.

Cael hyd i gae'r treialon, a'r nos yn nesau,
Fawr o dempar ar yr un o'r ddau
Dim cyfle am beint, ond cafwyd paned
Da cael honno, gwell na dim i dorri syched.

Daeth yn un-ar-ddeg, ac wedi tywyllu
Dim gobaith i'r ci dan amodau felly
A dwad adre fu rhaid i Wil a'r Bugail Teithiol
Gan obeithio tro nesaf am amodau mwy ffafriol.

Bydd dithau'n ofalus tro nesaf Sion Daf
Dy dwyllo wnaeth Wil Tan-Buarth, y cnaf,
Ond derbyniodd ei wob, daeth yn nos ar y twyllwr
Ni chafodd redeg, eitha gwaith, y bugail pdwdr.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

HELFA DRYSOR: Bu'r Helfa Drysor flynyddol a gynhaliwyd nos Sadwrn, Gorffennaf 1af yn llwyddiant eto eleni. Dyma sut y carai'r trefnwyr ddiolch a chyhoeddi'r canlyniadau:

Dymuna'r Mowlls ddiolch o galon i bawb o'r ffrindiau ddaeth yn ffyddlon i'r Helfa Drysor ym mis Gorffennaf. A dyma oedd y canlyniadau:

Y cyntaf i hawlio'r trysor oedd Maldwyn Hefo Jackie, Rhian ac Islwyn, Pobol glyfar oedd y rhain Ond fasa' nhw byth wedi ennill heb [nain.

Geraint a'i griw ddaeth yn ail adra' Ac wedyn yn drydydd criw Alwyn [Racca Mae un canlyniad ar ôl i'w gyhoeddi: Ken Cae Coch gafodd y 'Booby'.

Diolch yn fawr i deulu'r Mowlls ac i bawb a gefnogodd yr Helfa Drysor.

CROESO: Llawnedd yw croesawu un o fechgyn y pentref ynghyd â'i briod yn ôl i'w fro enedigol. Croeso mawr i Mr a Mrs Myrddin Jones i'w cartref newydd, Na-Nog, ar Stâd Erw Nant.

TRIP DIRGEL: Nos Wener, Gorffennaf 21ain, aeth aelodau, ieuenctid a phlant Eglwys M.C. Brynrefail ar eu taith ddirgel flynyddol. I Ynys Môn y cyrchwyd eleni ac wrth deithio i gyfeiriad Brynsiencyn a hithau yn noson mor hafaidd cafwyd golygfa odidog o Arfon a mynyddoedd Eryri. Talwyd ymweliad

ag Eglwys Niwbwrch a rhoddwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Norman Evans, un o'r wardeniaid ar yr eglwys hynafol a'i chysylltiadau hanesyddol cynnar. Yna, teithiwyd ymlaen drwy Falltraeth ac Aberffraw, croesi'r A5 ac wedi tramwyo drwy berfedd gwlad a mwynhau'r golygfeydd amaethyddol, cyrraedd Melin Llynnon, Llanddeusant - melin sydd wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar ac sydd yr unig felin o'i bath yng Nghymru sy'n dal i gynhyrchu bawd. Cafwyd sgwrs adeiladol gan y melinydd am ei waith yno ac yn dilyn mwynhawyd pryd blasus yn y Bwyty gerllaw. Dymuna'r trefnwyr, Mrs J. A. Roberts, Mrs Pat Jones a Miss L. P. Roberts ddiolch i bawb am gefnogaeth mor frwd i'r daith a chafwyd gair o werthfawrogiad ar derfyn y noson gan y Gweinidog, y Parchg John Morris.

DIOLCH: Dymuna Mr Elfed Roberts, Godre'r Coed, ddiolch yn fawr i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am eu dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion dderbyniodd ar ei benblwydd yn 80 oed ar Awst 18fed.

L L W Y D D I A N T : Llongyfarchiadau i Mrs Pat Mowll, Bryn Llwyd ar ei llwyddiant yn ennill gradd M.A. (Econ.) ym Mhrifysgol Manceinion yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD: Mae ein

cydymdeimlad yn ddwys â Mrs Elsi Welsby, Isfryn a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Mr Eric Welsby, priod, tad a thaid, a hynny mor ddisymwth ar Awst 8fed tra'n aros gyda'r teulu yn yr Eidal. Roedd Mr Welsby yn wr cymeradwy, parod ei gymwynas yn y gymdogaeth a bu'n gefnogol iawn i'r henoed a'u gweithgareddau yng Nghlwb yr Efail.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf, nos Lun y 17eg yn y Ffestri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Cafwyd noson hynod o ddiddorol yng nghwmni John a Morfudd Jones, Bryn Coch, Llanrug. Treuliwyd rhan gyntaf y noson gyda'r gwesteion yn trafod a rhoi sylwadau buddiol ar hen greiriau o eiddo'r aelodau ac yna yn dilyn, sgwrs gyda chymorth sleidiau ar hen ddodrefn Cymreig. Diolchwyd i'r ddau gan Mrs A. Hasson. Trefnwyd y baned gan Mrs Betty Owen a Mrs Pat Jones ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Rhian Jones, gan Mrs Hasson. Anfonwyd cofion at Mrs Mair Griffith yn Ysbyty Gwynedd gan ddymuno gwellhad buan iddi a chydymdeimlwyd â Mrs Jennie Roberts yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, y diweddar Mrs Dilys Hughes. Nos Lun, Awst 7fed, cyfarfu pwyllgor y gangen leol, a threfnwyd rhaglen amrywiol ar gyfer y tymor 1989-90. Bydd y cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd nos Lun, Medi 18fed.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU DEINIOLEN A'R CYLCH

Bydd y Gwasanaeth Undebol dan nawdd y Gymdeithas uchod yn cael ei gynnal eleni ar Sul, Hydref 1af yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen.

Bydd cyfarfod y prynhawn fel arfer yn cael ei gynnal gan blant yr Ysgolion Sul a gobeithio y cawn fel arfer gyfraniad gan y gwahanol Ysgolion Sul.

Mr Hefin Jones, Llanrug, fydd yn arwain y Gymanfa yn yr hwyr a Seinorff Ieuenctid Deiniolen yn rhoi eitem yn ystod y Gymanfa.

Edrychwn ymlaen am gefnogaeth yr holl eglwysi er sicrhau llwyddiant y cyfarfodydd.

Bydd Mrs Mary Davies, Penisa'rwaun yn ddiolchgar o'r arian a gesglir o dy i dy ar, neu cyn, Hydref 1af.


Beth am ddysgu dreifio gydag

**YSGOL YRRU
BETHEL**

Cysylltwch â

**Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009**

JOCS GWAETHA'R MIS!



C: Beth sy'n wyrdd, yn flewog ac yn sboncio o gwmpas?

A: Gwsberis efo'r igian.



C: Beth dd'wedodd un gannwyll wrth y llall?

A: Wyt ti'n mynd allan heno?




C: Beth gewch chwi wrth groesi eliffant a scync?

A: Anferth o ddrewdod!



C: Beth yw enw cath sy'n nofio o dan y dwr?

A: Octo-pws.




C: Beth ddywedodd un bêl snwcer wrth y llall?

A: Paid a neidio'r ciw.




Beth am anfon eich gwaith a'ch storïau i'r 'Gornel' erbyn y mis nesa'




ECO'R IFANC

Eco'r Ifanc, Pant Bryn Gwyn,
Tan-y-Coed, Llanrug.


PWY BIA P'RUN




O DDOT I DDOT



LLIWIWH Y FFRWYTHAU



**DEFNYDDIWCH Y
LLIWIAU PRIODOL**



1. GLAS 2. COCH 3. MELYN 4. GWYRDD 5. DU

TU HWNT I'R TAMAR

RHAN I

Yn ystod fy nghrwydriadau, deisyfais unwaith fynd i weld Gwlad y Gorllewin; Dyfnaint a Chernyw, a'r tirio-gaethau rheiny tu hwnt i'r Tamar a gwlad Lorna Doone, a chyrhaeddais o'r diwedd ddinas Exeter.

Doeddwn i ddim awydd fy nghyfyngu fy hun i'r fan honno fodd bynnag, ac yn y llyfrgell cefais afael ar gyfnodolyn 'The Lady' ym mha un yr oedd yna gyflenwad o hysbysebion am sefyllfaoedd mewn gwasanaeth preifat. Roedd yna gymaint o brinder pobl i ymgymeryd â'r math yna o waith yr adeg honno, nes yr oedd cyflogwyr o'r braidd, wedi mynd i ymbil am gynorthwy, ac yn addo pob math o gyflwysterau. Yn eu mhysg, sylwais ar un hysbyseb a oedd yn fwy ar ffurf gorchymyn na gwa-hoddiad, gan rhyw arglwyddes nas gallaf yn y fan yma ei henwi. Roedd hi'n trigo, yn ôl y disgrifiad, mewn plasdy yng nghefn gwlad, ac yr oedd arni angen rhywun i yrru Rolls Royce.

Gan nad oeddwn wedi bod wrth lyw cerbyd felly, ddisgwyliais i ddim ateb i'm cais, ond er fy syndod, daeth i mi wahoddiad i gyfweiliad.

Teithiais mewn cerbyd cyhoeddus i bentref diarffordd, ac ar gyfarwyddid y gyrrwr, dechreuais droedio ar hyd rhodfa nad oedd iddi yn ôl pob ymddangosiad, ben draw. O'r diwedd fodd bynnag, deuthum i lannerch agored o'r ba fan y gwelais y plasdy. Roedd iddo lawntiau eang, sim-neau uchel ac yr oedd darn ohono wedi hanner ei goedio yn y dull Elisabethaidd.

Agorwyd i mi gan fwiler a arweiniodd fi drwy gyntedd moethus yn llawn cerfluniau gwych. Gwahoddodd fi i eistedd mewn *morning room* a wynebai ar ardd suddedig a grisiau cerrig yn arwain i lawr iddi.

Ymhen dipyn agorodd y drws, a gwelais yno yn sefyll ddynes gymharol ieuanc, dywell iawn ei phryd fel quadron. Ysgydodd law â mi a gwahoddodd fi i eistedd gyferbyn. Roedd ei dull yn uniongyrchol. Gofynnodd a oeddwn wedi cael trafferth i gan-fod y fan, yna eglurodd ei bod yn hoffi byw yn neilltuedig.

Danghosodd hi fawr o chwil-frydedd ynglyn â'm cefndir na'm gorphenol. Yn hytrach roedd arni fwy o awydd gwybod beth â wyddwn am Rolls Royce, a doedd hi yn amlwg ddim yn berson i gell-wair â hi. Dywedais wrthi felly fy mod yn gwybod digon chydig. Yn wir, heblaw i mi unwaith echedeg mewn awyren yn cael ei gyrru gan bedair Rolls Royce Merlin, na wddwn i ddim.

'Ie, y Merlin,' meddai, wedi gweddnewid. 'Mi fum innau'n echedeg gyda honno. Y peiriant gorau yn y byd.'

'Fuoch chi?' meddwn i yn llawn anghrediniaeth.

'Roeddwn i'n perthyn i'r Air Transport Auxilliary,' meddai wedyn. 'Roeddwn i yn dosbarthu Spitfires o'r ffatrioedd i'r meysydd awyr. Mi fyddwn yn gwneud campau awyr ar y ffordd. Doedden ni ddim i fod i wneud wrth gwrs, ond roedd hi'n ormod o demtasiwn gyda'r Merlin.'

Aeth yn ei blaen wedyn i egluro fod arni eisiau dyn sengl i yrru'r Rolls a byw ar y lle. Doedd hi ddim yn swydd galed ddylwi, ond fod y gyrrwr i fod ar gael unrhyw awr i'w chludo hi i ble bynnag y dymunai fynd. Yr oedd yna fflat bychan ar gael uwchben y garages iddo drigo.

'Tyrd,' meddai. 'Mi awn i weld y cerbyd.'

Roedd hwnnw yn barod yn sefyll yn y cyntedd o flaen y ty. Phantom mawr ydoedd yn sgleinio fel darn o wydr. Aeth iddo a chychwyn y peiriant. Yna aeth i eistedd i'r sedd ôl.

'Dyna chdi,' meddai. 'Mi gawn weld beth fedri di wneud ag un Phantom yn lle pedair Merlin.'

Doedd yna ddim amdani felly ond eistedd wrth y llyw, ond ni cheisiais symud ymlaen yr un fodfedd. Doeddwn i ddim yn sicr o'r symudiadau o gwbl, ac yn amlwg nid oeddwn am gael cynorthwy o'r tu ôl. Roedd y peiriant yn y cyfamser, yn troi heb swm yn y byd.

Er mwyn achub dipyn o amser i mi fy hun gofynnais. 'Ble mynnwch chi fynd?'

'I lawr y dreif pan fyddi di'n barod. A chyda llaw,' meddai, 'Nid i edrych i'r sedd ôl mae'r drych gyrru yn dda, ond ar y ffordd yn unig.'

Sylweddolais erbyn hynny ei bod hi'n mwynhau fy anesmwythyd yn arw.

'Roedd y car yma yn perthyn i Arglwydd Caernarfon wyddost ti,' meddai.

'Hwnnw ddaru agor bedd Tutenkamun?'

'O fe wyddost am y felltith felly?'

'Gwn,' meddwn. 'Gobeithio nad ydyw honno wedi disgyn ar ei eiddo hefyd.'

'Wyt ti'n ofergoelus?'

Anwybyddais y cwestiwn gan fy mod yn rhy brysur yn ceisio

meistroli symudiadau'r gêrs, ond llwyddais yn y diwedd i symud ymlaen, ac mae'n siwr gen i mai honno oedd y daith fwyaf anfelys â gafodd y cerbyd a'i berchenog erioed.

'Stopia,' meddai hi yn sydyn, ac ar ôl i mi wneud, dywedodd hi mwya didaro. 'Rwy'n cymeryd yn ganiataol nad oeddet ti'n disgwyl cael y swydd pan ddoist ti'r bore?'

'Nac oeddwn,' meddwn innau ar ei ben.

'Wel, beth bynnag, mi rwyf ti'n onest.'

Erbyn hynny doeddwn innau'n malio fawr sut y buasai pethau yn troi - doedd gen i ddim i'w golli. 'Doeddwn i ddim yn disgwyl cyfweiliad fel hyn chwaith,' meddwn.

'O - sut un oeddet ti'n ddisgwyl?'

'Wel - dipyn mwy ...'

'Ffurfiol efallai?'

'Beth bynnag, mae'n amlwg mai nid fi yw'r dyn ar eich cyfer.'

'Sut wyt ti mor siwr o hynny?'

Atebais i ddim ond agor y drws a rhoi fy nhraed allan.

'Ble'r ei di?' gofynnodd.

Cyn i mi gael cyfle i ateb, gwelais griw o farchogion mewn cotiau cochion yn cael eu dilyn gan haid o fytheuaid, yn dod tuag atom. Welais i neb erioed yn newis ei hagwedd fel fy nghydy-maith. Neidiodd o'r car a gosododd ei hun yn union ar lwybr y fintai hela. Safasant hwythau a daeth un gwr ymlaen. Dyn mewn oed ydoedd, yn amlwg yn mwynhau awdurdod. Cythrod hi fodd bynnag i afwyn ei geffyl a gorchmynodd iddynt droi ar eu sodlau. Datblygodd dadl ffyrnig yn ystod pa un y clywais yr arglwyddes yn hyrddio amryw o osodiadau Ffrengig at y dyn. Yn y diwedd ildiodd hwnnw, ac aethant i gyd yn eu holau. Aeth hithau yn ei hôl i sedd y car, ac wrth fy ngweld innau yn petruso, dywedodd.

'Wel, tyrd yn dy flaen. Os wyt ti am fod yn yrrwr i mi, bydd rhaid i ti fynd â fi adre hefyd wyddost ti.'

Ac yn ôl at yr olwyn yr aethum - y tro yma gyda mwy o hyder. Gorchmynodd hi i mi yrru wrth sodlau'r marchogion bob cam i'r ffordd, ac yna, dywedodd wrthyf am fynd i'r pentre. 'Mae arna i eisiau un neu ddau o bethau o siop y post,' meddai.

Bum yn disgwyl wrthi am yn

hir ar ymyl y green, a phan gyrhaeddodd, doedd hi ddim mor barod i fynd adre wedyn. Dechreuodd sgwrsio am hyn a'r llall, ac heb ofyn cwestiynau uniongyrchol, roedd hi wedi cael fy hanes i mewn llai na chwarter awr.

'Roeddet ti'n adnabod Simone de Beauvoir felly?' meddai. 'Mae hi yn un o'm cydwladwyr wyddost ti. Rwy'n hanu o un o deulu-oedd y Corsairs o San Malo.'

Wedi deall y ffaith honno roeddwn innau'n synnu llai at ei hymddygiad hefo'r fintai hela yn y dreif.

'Mi awn i adre rwan. Mae hi bron yn amser cinio. Ond cofia, os y bydd yna y mymryn lleiaf o sgriffiad ar y car, chei di ddim o'r swydd.'

Ar ôl i ni gyrraedd yn ein holau at y ty yn ddidramgwydd, fedrwn i ddim llai na dweud wrthi fy mod yn credu ei bod wedi rhyfygu wrth sefyll ar lwybr y marchogion cotiau cochion.

'Rhyfyg ydy bywyd,' meddai. 'Rho dy law yn y boced yna wrth dy ochr.'

Yno canfyddais lawddryll Smith and Wesson .38 wedi ei lwytho. 'Mae hwnna yna bob amser cofia.'

Dywedodd y deuai yr hen yrrwr yno am wythnos i'm hyfforddi hefo'r Rolls, ac ychwanegodd fod yr ystafelloedd uwchben y garej ar fy nghyfer, ond nad oeddwn ar un cyfrif i gael aelodau o'r staff yn westeion yno. Gorchmynodd wedyn i'r bwtler fynd â fi i lawr y grisiau i gael pryd o fwyd gyda'r gweddill. Cefais yno dderbyniad croesawgar, ac ar ôl cyfarfod â'r bobl hynny, yr oeddwn yn sicr fod y feistres yn amheuthun. Roedd yno arddwr o Bortiwgal a'i wraig, geneth o Sbaen, ac un arall o Quebec.

Ond yr oedd yno un ferch wallt-goch yr ochr draw i'r bwrdd nad oedd yn dweud fawr ddim. Eto, yr oedd yn edrych arnaf yn wybodus fel pe baem ein dau yn rhannu cyfrinach.

Ar ôl y pryd, fel arwydd o werthfawrogiad, cynigiais gynorthwyo i olchi'r llestri. Y ferch wallt coch oedd yn sychu. Yr oedd hi'n dal yn dawedog nes i mi roi dysgl wydr iddi i'w thrin. Daliodd hi o fy mlaen yn erbyn y golau, a dywedodd gyda llond ceg o Gymraeg Sir Gaernarfon.

'Dwyt ti ddim wedi rhoi digon o benelin i honna Wil!'



CYNLLUN ORIAU HAMDDEN

Edrychwn am bobl o bob oed a chefnidir i fod yn rhan o'r cynllun unigryw hwn i agor drysau newydd ac ehangu profiad ein gweithwyr o'r byd mawr o'u hamgylch. Os ydych yn byw yn Arfon beth am rannu eich amser rhydd gyda gweithwyr Antur Waunfawr.

Cysylltwch a: GRACE JONES neu HYWEL V. EVANS
Bryn Pistyll, Waunfawr, Caernarfon. Ffôn: Waunfawr 721.

DINORWIG

Gohebydd: Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Fe gafwyd seibiant byr ar ôl rhifyn Gorffennaf cyn dechrau casglu ar gyfer y rhifyn presennol, ac fe fu tywydd dechrau haf yn hynod o desog gyda phob cymhelliad i wisgo cyn lleied ag oedd bosibl ac eto bod yn ddesant. Yn dilyn y gwres llethol fe ddaeth tywydd mwy cyfnewidiol a gwyllt hefyd ar brydiau pan oedd swm y gwynt i'w glywed yn y simdeuai.

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL: Fe welwyd cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst a'r Cylch, lle mae gyda llaw y traddodiad a'r profiad Eisteddfodol yn gryf iawn. Eisteddfod daleithiol yno'n bur llewyrchus ar hyd y blynyddoedd, ac ieuencid y cylch yn cael eu dwyn i fyny i baratoi'n gyson ar gyfer cystadlu iach, ac fe fu'r Eisteddfod Genedlaethol ei hun yno nifer o weithiau. Serch hynny mae digon o le i ofyn – a adlewyrchwyd hyn yn yr Eisteddfod eleni? Fe ddichon bod nifer o bethau yn eisiau, ac fe fu ymateb siomedig mewn rhai cystadleuthau. Rhwydd iawn y gallwn ofyn yn sobr – beth oedd yn gyfrifol am hyn?

ANHWYLDER: Er i'r tywydd y tymor hwn fod mor hafaidd – gwell nad a gawsom ers nifer o flynyddoedd – chwith iawn yw nodi bod cryn nifer o'r rhai a adnabyddwn yn bur dda, wedi eu llethu gan wendid, a hynny'n golygu iddynt fod dan reidrwydd i fyned i ysbyty. Fe ddaeth hen glwyf i boeni Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage, ac fe gawn Mrs Fleming, 1 Maes Eilian, hithau wedi ei llethu gan ofidiau'r byd cyfoes. Rhywbeth yn debyg yw'r hanes am Mrs Rene Morris, 4 Maes Eilian, Mr Gwilym G. Jones, Y Foel, a Mr Emlyn Griffith, Bro Elidir. Bron yn ddieithriad dod yn raddol a wnaeth yr anhwylderau hyn. Fe ddaeth

hefyd bwl o wendid i ran Miss Margaret Jane Jones, Y Foel. Fe ddichon mai canlyniad profedigaeth oedd y gwreiddyn i hyn oll. Cofiw'n hefyd bod Mrs Beti Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian wedi bod mewn trafferthion gyda'i choes ers sbel o dro bellach, a rhaid iddi hithau ddibynnu ar ffon i'w chynorthwyo o un lle i'r llall.

MARWOLAETH: Fe ddaeth cwmwl o dristwch dros Faes Eilian pan ddisgynodd Mr Robert Haynes, 6 Maes Eilian, yn farw'n ddisyfyd yn Neiniolen. Wedi dod i fyw yma o Birmingham yr oedd ef a gwneud ei gartref gyda'i chwarae a'r teulu yma. Yr oedd yn gymeriad hoffus iawn a gwên ar ei wyneb bob amser. Fe wasanaethodd yn ei angladd gan y Parchg J. Noel Jones, y Deon Gwlad, ac offeiriad yr Eglwys yng Nghymru yn Llanllyfni a Phen-y-groes. Pur anaml y gwelir hers ac ambwlans yn yr un angladd gan y bu rhaid cludo brawd i Mr Haynes i Ysbyty Gwynedd, Bangor oherwydd trawiad y galon.

TEYRNGED O AWSTRALIA: Pan fu farw Mrs Katie Lewis y cofnodwyd ei marwolaeth yn y rhifyn diwethaf o Eco'r Wyddfa, fe anfonwyd telegram at Mr Goronwy Lewis, Llanberis, ar ran y teulu sydd yn Awstralia, ac 'roedd y brys neges yn deyrnged haeddiannol iawn i'r ddiweddar chwaer y teimlwn ei cholli o gapel Sardis. Gwr Gwyneth Ann, ei merch, oedd wedi llunio ac anfon y telegram oedd yn cynnwys cais i'r neges gael ei darllen yng Nghapel Sardis (A) ddydd yr angladd. Fe fethwyd yn anffodus gydsynio â'r cais.

DIOLCH: Dymuna Mrs M Fleming, 1 Maes Eilian ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty

Gwynedd yn ddiweddar, ac yn arbennig i'r meddygon a staff Ward Tryfan, am eu gofal. Hefyd fe ddymuna ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion ac i bawb a fu yn ymweld â hi yn ystod ei gwaeledd.

EDRYCH YMLAEN: Tra gyrrwn y tymor blaenorol i ebargofiant, mae'n arferol gennym edrych ymlaen yn ffyddiog i'r tymor newydd sy'n cynnwys yr hydref a'r gaeaf. Hwn wrth gwrs yw cyfnod gweithgarwch dosbarth yr oedolion sy'n arwain i fyny at yr Wyl Ddiolgarwch ac yna Y Gymdeithas Lenyddol neu Ddiwylliadol. Aeth heibio fis Awst a'r cyd-addoli yn Dinorwig (M.C.) a Sardis (B) pan rennir y Suliau rhwng y ddau gapel. Fe deimlwn bod hyn yn gwarantu teilyngach cynulladau ar gyfer y cenhadon a ddaw i'n gwasanaethu. Er i Mr Gwilym G. Jones fethu dod i wasanaethu ar yr organ yn Sardis, fe ddaeth Mrs Lona Lewis i lenwi'r bwlch, ac 'roeddem ninnau'n ddiolchgar o'i gwasanaeth a'i chynorthwy. Gweddiwn am gael gweld y cymylau yn clirio i ffwrdd a gloywach nen yn dod i gapel ac eglwys. Mae'n rhaid i ninnau wrth gwrs ddygymod â gofidiau yn ogystal â hapusrwydd. Cymysgedd o'r ddau yw bywyd, ac ni all hi fod yn haf o hyd – rhaid cael y gaeaf hefyd.

HWYL HAF '89: Profodd Hwyl Haf a gynhaliwyd eleni ar brynhawn dydd Sadwrn, 24 Mehefin, yn llwyddiant ysgubol unwaith yn rhagor. Sicrhawyd elw ariannol o £150 ar ddiwedd y prynhawn. Cawsom ein bendithio gan dywydd braf ac wrth gwrs 'roedd hynny wrth fodd pawb. Braf yw gweld pawb o bob oed yn ymgynull i fwynhau eu hunain fel hyn. Hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y fenter, sy'n llawer rhy niferus i enwi pawb. 'Rydych yn gwybod pwy ydych ac mae ein diolch yn fawr i chwi. Diolch hefyd i drigolion Deiniolen am eu cefnogaeth unwaith yn rhagor ac am gymryd rhan llawn yn yr hwyl a'r sbri. Hefyd daeth rhai o gyn-ardalwyr yn ôl am y prynhawn, ac un ohonynt oedd Mrs Nest Jones, gynt o Tan y Bryn, Allt Ddu. 'Roedd pawb yn falch o'i gweld ac fe gafodd hithau amser wrth ei bodd yn siarad a hen gyfeillion a chofio y dyddiau a fu yn Ninorwig. Digwyddiad arall o bwys oedd i Mr Rennell Williams, Tan y Fron, recordio yr holl weithgaredd ar fideo, ac er bod rhai ohonoch wedi ei weld eisoes, y gobaith yw y bydd noson yn cael ei threfnu yn y Ganolfan yn y dyfodol agos i bawb gael ei weld.



Y plant yn eu gwisg ffansi yn yr Hwyl Haf.

CAE CHWARAE: Mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn ddiweddar mynegwyd prydoron ynglyn â nifer y cwn sydd i'w gweld yn cael eu gadael yn rhydd ar gaeau chwarae y pentrefi gan eu perchnogion. Ymddengys bod yr un peth yn digwydd yma yn Ninorwig. Nid yw yn deg ar y plant sydd yn defnyddio'r caeau hyn bod y cwn yn cael gadael eu baw ar eu hôl. Gobaith y Cyngor yw y gwelir arwyddion yn cael eu gosod i fyny yn tynnu sylw y perchnogion na ellir caniatáu iddynt fynd a'u cwn ar y caeau hyn.

CORNEL PEN GALLT Y FOEL: Unwaith yn rhagor mae y Cyngorydd Glyn Tomos gyda chefnogaeth y Cyngor Cymuned wedi tynnu sylw y Cyngor Sir at yr angen i wella cyflwr cornel Pen Gallt y Foel. Dyma ni eto gyda'r Hydref ar fin dod yn dal i ddisgwyl am y gwaith i ddechrau. A welwn weithredu cyn diwedd y flwyddyn dudwch?

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**

+

**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR,
LLANRUG**

**Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.**

**Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)**

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr



Mr a Mrs Leslie Jones gyda'r Parch. Barry Thomas a rhai o blant yr ysgol.

FFARWELIO: Mewn cyfarfod arbennig yn yr ysgol ddiwedd tymor yr haf, ffarweliodd staff a phlant yr ysgol â Mr Leslie Jones a fu'n brifathro yno am dros ugain mlynedd. Dymunwn pob hapusrwydd iddo yn ei ymddeoliad.

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Mehefin 22ain, aeth aelodau y Gangen am wibdaith o amgylch Ynys Môn. Cafwyd sgwrs ddiddorol am fannau arbennig gan Mrs Mary Vaughan Jones. Roedd yn noson braf iawn, ac ar ôl y daith cafodd yr aelodau wledd ardderchog yng Nghegin y Marquiss. Rhoddwyd y ddwy raffl gan Mrs Nan Huws Roberts a Mrs Joy Glyn. Yr enillwyr oedd Mrs Janet Smith a Mrs Glenys Williams. Agorir tymor y gangen eleni nos Iau, Medi 28, yn y Ganolfan am 7.15 gyda darlith gan Mrs Marged Pritchard. Gwahoddir chwi yn gynnes iawn i ymuno â ni eleni gan ein bod wedi paratoi rhaglen amrywiol ar eich cyfer. Byddwn yn falch iawn o groesawu aelodau hen a newydd.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y

Clwb 300 am fis Mehefin – £40: Haydn Jones, Rhandirmwyn; 2, £25: Mrs Owen, 11 Ty Hên; 3, £10: Sandra Roscoe, Ty Ni. Enillwyr mis Gorffennaf – 1, £40: Dr Huw Roberts, Hafodty, Rhosbodrual; 2, £25: Mrs Beryl Walker, Snowdonia Park; 3, £10: Meloni Jones, Crud yr Awel.

CANCER RELIEF MACMILLAN FUND: Dymuna Mr Paul Kelly, Cadeirydd a holl aelodau Pwyllgor 'Cancer Relief MacMillan Fund' dosbarth Arfon, ddiolch i'r canlynol am gasglu o dy i dy yn ddiweddar: Mrs. Catherine Jones, Bryn Gwenallt (trefnydd) – £27.69; Miss Ifanwy Rhisiart, Bod Afon – £29.94; Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa – £14.78; Mrs Margaret Jones, Graianfryn – £34.99; Mrs Katie M. Jones, Gorwel – £38.03; Snowdonia Park Hotel – £13.00. Cyfanswm o £158.43.

Diolch hefyd i bawb am gyfrannu mor hael tuag at yr achos teilwng yma.

Cafwyd siop i werthu dillad ail-law yng Nghaernarfon yn ystod mis Awst a bu hon yn llwyddiant mawr. Cafwyd

£1,830 tuag at yr adran leol o'r Pwyllgor. Diolch eto i bawb am eu cefnogaeth.

PLAID CYMRU: Mae Plaid Cymru wedi llunio rhaglen ddiddorol a chyffrous ar gyfer y tymor newydd yn cynnwys: Gorffennaf 22 – Barbaciw a thaith gerdded o gwmpas y pentref; Medi (Gwyl Glyndwr) – Ffair Nadolig ac Ocsiwn Fawr; Mawrth 1990 i ddathlu Gwyl Ddewi trefnir cyfeddach o dy i dy yn y pentref gan orffen ym Mryneirian mewn cyngerdd yng nghwmni Dylan Parry; Mehefin 1990 – Taith gerdded i Enlli a/neu Ynys Môn yng ngwmni Duncan Brown.

Cafodd y Swyddogion a fu mor weithgar y llynedd eu hail-ethol eto eleni. **Ymunwch â Phlaid Cymru (ffoniwch Gil Brown, Waunfawr 547) Gwaith, tai addas a chyflogau teg i bobl Cymru.**

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Bydd tymor y Gymdeithas Lenyddol yn cychwyn nos Lun, Hydref 30, pan y ceir darlith gan y Parch Huw Jones, Rhuddlan ar 'Ochr Ddigrî fy Ngweinidogaeth'. Cafodd pawb fwynhad mawr o glywed y Parch Huw Jones ddwy flynedd yn ôl yn rhoi rhan gyntaf ei ddarlith boblogaidd, ac edrychir ymlaen i glywed yr ail ran pan y bydd yn sôn am ei yrfa yn Arfon a Meirionydd. Yn ystod y tymor ceir darlith ar 'Llwyd o'r Bryn' gan Mr Geraint Lloyd Owen, a daw Mr Ifan Roberts, Comisiynydd Rhaglenni S4C atom i roi sgwrs o dan y teitl 'Dipyn o dwyll' – sgwrs yn ymwneud a rhaglenni teledu. Ceir dipyn o frethyn cartref hefyd yn ystod y tymor pan y ceir cip ar fywyd Warden y Parc Cenedlaethol yng nghwmni Mr Aled Taylor a golwg ar China gyda Mrs Mary Vaughan Jones. Gobeithir cael cefnogaeth yr aelodau i'r pum cystadleuaeth a drefnir yn y Ffug Eisteddfod, ac fe ddaw y tymor i ben gyda fforwm yn trafod y gwahanol broblemau cymdeithasol ac amaethyddol sy'n wynebu cefn gwlad heddiw. Y tri ar y panel fydd

Duncan Brown o'r Cyngor Gwarchod Natur, Dewi Williams, Adran Ymgynghorol y Weinyddiaeth Amaeth, a John Roberts Williams, Newyddiadurwr a mab fferm. Gofynnir y cwestiynnau gan Dei Tomos. Yn sgîl llwyddiant y trip gyda'r nos yr haf hwn, gobeithir trefnu trip cyffelyb eto yr haf nesaf. Disgwylir y bydd yr arlwy a drefnwyd o ddiddordeb ac y bydd yr hen aelodau, a rhai newydd gobeithio, yn ymuno yn y Gymdeithas y tymor hwn eto.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliodd Sefydliad y Merched Waunfawr eu cyfarfod, nos Iau y 6ed o Orffennaf. Dechreuwyd gan y Llywydd, Mrs Pat Parry yn estyn croeso i Mrs Olwen Williams fel darpar aelod newydd, croesawodd hefyd Mrs Ellen Jones yn ôl o'i hymwelid â gwledydd tramor.

Gwraig wadd y noson oedd Miss Margaret Griffith o Caerhun. Rhoddodd hi sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ar 'Fwyta lachus'. Diolchwyd iddi gan Mrs Myra Ham am noson a fwynhawyd gan bawb. Enillodd Mrs Olwen Williams y raffl oedd wedi ei rhoi gan Mrs Morfa Evans. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fedi 7, pryd y disgwylir Mrs Ceri Williams i annerch.

DATGANIAD I'R WASG: Bydd y gwaith atgyweirio ar bont rheilffordd Betws Garmon yn cychwyn yn fuan, yn ôl y Cyng. Eurig Wyn sydd wedi bod yn siarad gyda'r Cyngor Sir ynghylch y mater ar ran y trigolion.

Roedd nifer o bobol yr ardal wedi cwyno wrtho ynglyn â chyflwr y bont, gan honni fod ei waliau a'i sylfeini'n dirywio'n arw.

Dywedodd y Cyng Wyn: 'Rwy'n falch eithriadol fod y Cyngor Sir wedi cytuno i drwsio'r bont ar yr un adeg ac y gwneir y gwaith dros bont Afon Gwyrfa. Bydd y ddwy bont, o'u hadnwyddu, yn gwella tipyn ar gyflwr y briffordd A4085 i Feddgelert'.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH

**WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**

**Ffôn:
Waunfawr 552**

Mewn llythyr at Eurig Wyn dywed y Syrffwr Sirol, Huw Davies, y bydd y gwaith yn dechrau'r fuan. Mae'r Cyngor mewn cysylltiad â'r Derbynnydd Swyddogol sy'n cynrychioli cwmni rheilffordd y Welsh Highland Railway, a bydd y Cyngor yn disgwyl i'r Cwmni i wynebu'r costau.

GWAITH CYNGHORYDD: Mae profion brecio a gyflawnwyd ar rai o ffyrdd Waunfawr wedi dangos nad oes gan fodurwyr unrhyw le i bryderu. Mae hyn yn dilyn cais i Adran Briffyrdd y Cyngor Sir gan y Cyng Eurig Wyn wedi iddo dderbyn nifer o gwynion gan fodurwyr.

Mae'r Cyng Wyn hefyd wedi sgrifennu at Gyngor Gwynedd yn diolch iddynt am lefelu'r rhan anwastad o bont ger Cae Main. Trefnwyd cyfarfod ar y safle i adolygu'r sefyllfa yn dilyn cwynion i'r Cyng Wyn oddi wrth amaethwyr a gyrrwyr lorïau trymion.

ANTUR WAUNFAWR: Pan sefydlwyd 'Antur Waunfawr', mae'n debyg mai'r prif amcan oedd rhoi cyfle gwaith i bobl a nam meddwl yn y gred fod cael yr hawl i weithio yn rhoi urddas ar yr unigolyn. Trwy gymorth grantiau dan gynllun Statagaeth Cymru â'r Comisiwn Ewropeaidd datblygwyd sefyllfa gwaith yn y pentref, a gwiredwyd breuddwyd yr hyrwyddwyr, pan ddaeth yn amlwg i bawb fod y gweithwyr yn datblygu yn rhyfeddol - yn wir, i'r graddau fod Antur Waunfawr yn cael ei gydnabod ymhell ac agos fel cynllun arbrol o'r pwysigrwydd uchaf.

Ond daeth ffaith arall yn amlwg.

Nid y gweithwyr anabl yn unig oedd yn manteisio. Sylweddolwyd fod y cynllun yn bwysig o safbwynt yr ardal a'r pentrefwyr yn gyffredinol, ac fod y gweithgor yn cyflawni gwasanaeth cymunedol ar raddfa ddigon eang fel ag i gyfiawnhau bodolaeth yr Antur fel menter gymunedol ar gyfrif ei gwerth i'r ardal.

O'r 500 o geisiadau wnaed trwy holl wledydd Prydain,

llwyddodd Antur Waunfawr i gipio prif wobrau y 'Times/RIBA' a'r 'Community Projects Foundation/Barclays', fel y fenter gymunedol fwyaf llwyddianus yn 1989. Mewn seremoni yn Llundain cyflwynwyd plac, tystysgrifau a £2,000 i'r Antur gan Dywysog Cymru.

Daeth Prif Gyfarwyddwr y 'Community Projects Foundation', Mr David Thomas, ynghyd a Rheolwr o Fanc Barclays i gyfarfod cyhoeddus ar safle'r Antur yn Waunfawr i wneud cyflwyniad ffurfiol.

Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan Mr Dafydd Wigley, A.S., y Mri Ioan Bowen Rees a Cledwyn Williams o Gyngor Gwynedd â'r Cyngorwyr Eurig Wyn a Gwilym Williams.

RAS ANTUR WAUNFAWR
Bydd Ras Antur Waunfawr yn cael ei rhedeg ar Fedi 30, 1989.

Hon yw y drydedd flwyddyn i Antur Waunfawr drefnu Ras yn y pentref, ac yn ôl yr arfer croesewir Stondinau yn y Ganolfan.

Ar sail llwyddiant y gorffennol bydd 'Ras Antur Waunfawr' eleni ar raddfa fwy ac yn ras gydnabyddedig yr 'Eryri Harriers'.

Disgwylir nifer helaeth o ymgeiswyr o bell ac agos.

Dylai rhai sydd eisiau rhedeg yn y ras gysylltu ag 'Antur Waunfawr', Ffôn: (0286) 85 721.



Elin Gwilym ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth Adrodd o'r Ysgrythur.

LLONGYFARCHIADAU:

- i Elin Gwilym, Llidiart Wen ac i Meira Turner, Collfryn, ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.

- i Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed ar ei darlith ym mhabell Wyddoniaeth yr Eisteddfod - roedd canmoli-aeth mawr iddi.

- i Mr a Mrs Westphall, Tref Eilian, ar ddathlu eu priodas ruddem.

- i Mrs a Mrs John Dawson, Bro Waun, ar ddathlu eu priodas berl.

- i Ian Williams, Llwydiarth, ar ei briodas â Lesley Ann o Garmel, byddant yn ymgartrefu yn 4 Stad Ty Hen.

- i Mr a Mrs T. H. Williams, Llwydiarth ar ddod yn daid a nain, ganwyd merch fach, Sioned Alaw i'w mab Dafydd Glyn a'i wraig Carys.

- i Yvonne, Bryn Golau ar enedigaeth mab bach, Carwyn, brawd bach i Ceri a Ceirion, ac i Mr a Mrs R. Rowlands, Bryn Golau ar ddod yn daid a nain i'r bychan.

- i Gerald Rowlands, Bryn Golau ar ei ddyweddïad â Sara Jones o Fiwmares.

- i Gethin Williams, 5 Pant y Waun ac i Carmen Pierce, Bryn Golau ar gyrraedd eu 21 mlwydd oed.

- i Nan Wyn, Tan-y-Fron, ac Elliw Haf, Pen-y-Berth ar gyrraedd eu penblwydd yn 18 mlwydd oed.



Meira Turner - Cystadleuaeth Goffa Llwyd o'r Bryn.

- i Sian Davies, Dôl Gwyrfaï ar ei dyweddïad â Graham Sturman o Gaernarfon.

- i Rhodri Sion, Pant Teg ar gael ei ddewis i gymryd rhan yn y ddrama Enoc Huws.

- i Gwyneth Ellis, Ty'n Llidiart ar ennill gradd B.Sc., ac i Neil Johnson, Ty Gwyn ar ennill gradd B.A.

- i holl bobl ifanc y pentref a wnaeth mor dda yn eu haroliadau.

- i'r rhai sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn arholiadau cerddorol. Theori, Gradd 1: Ceirion Williams, Bryn Meurig a Ffion Edwards, Melin-y-Wig; Theori Gradd 3: Meilir Gwynedd, Nant; Theori Gradd 5: Rachel Davies, Nant y Mynydd ac Osian Gwynedd, Nant. Chwarae Piano Gradd 1: Manon Evans, Arfryn; Gradd 2: Llion Mair (Anrhydedd), Llwyn Onn; Gradd 3: Anwen Jones, Llwyn Afon, Delyth Jones, Cynant Lodge, Carolyn Griffith, Ty'n y Wern (teilyngdod); Gradd 3: Heddus Gwynedd, Nant (teilyngdod); Gradd 4: Alaw Meleri, Rhandir Mwyn a Zoe Gordon, Garnedd Wen (anrhydedd).

- i Geraint a Susan, Hafod Wen ar enedigaeth mab bach, brawd i Elinor.

- i Mrs L. Evans, Tegfan, ar ddod yn hen nain - ganwyd merch i'w hwyr Kenneth a'i wraig Aelwen yng Nghaernarfon.



Rhodri Sion a ddewiswyd i gymeryd rhan yn y ddrama Enoc Huws.

GWILYM H. WILLIAMS
BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL
Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

TAC SIS
BETH EL
UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER
Ffôn: (93) 670555

CRIB COCH
Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN
Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Waunfawr

(PARHAD)

CROESAWU: Croeso i Mrs Eryl Thomas o Nantlle yma fel prifathrawes yr ysgol.

DYMUNIADAU GORAU i bawb fydd yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg neu swydd newydd yn ystod y tymor yma.

Dymuniadau gorau i Nan Wyn sydd wedi mynd i Lesotho; ac i Elliw Haf, Pen-y-berth fydd yn mynd i Ffrainc. Gobeithio y gwelwn chwi'n ôl yn y Waun yn fuan.

BEDYDD: Mewn gwasanaeth yn ei gartref, Tan-y-Coed, o dan ofal y Parch Gareth Maelor, bedyddiwyd Deion, mab bychan Michael a Delyth Jones.

YR YSGOL: Enillwyd Tarianau'r flwyddyn fel a ganlyn: **Tarian Gerdd** (rhodd Mrs Ann Marston) - Elaine Owen. Cyflwynwyd y darian iddi gan Mr Gareth Hughes-Jones, arweinydd Côr Meibion Caernarfon; **Tarian Cywaith** (rhodd Dr R. S. Williams) - Hedddus Gwynedd. Cyflwynwyd y darian iddi gan Mr Arwel Jones, Prifathro Ysgol Bontnewydd a fu'n garedig iawn i feirniadu eleni. **Tarianau Mabolgampau** (rhodd Mr Eurig Wyn): Geneth - Heledd Elfryn; Bachgen - Kevin Davies. Cyflwynwyd y Tarianau i'r ddau gan Mr Eurig Wyn.

Hoffai Mr Leslie Jones ddiolch yn gynnes iawn i'r athrawon a chyn-athrawon, staff a chyn-staff y gegin a'r glanhawyr, plant, cyn-ddisgyblion, rhieni, ffrindiau a llywodraethwyr yr Ysgol am eu haelioni a'u dymuniadau gorau iddo ar achlysur ei ymddeoliad. Dymuna hefyd ddiolch yn gynnes iawn am y cydweithrediad a'r gefnogaeth a dderbyniodd gan y staff a'r rhieni yn ystod yr un-mlynedd-ar-hugain y bu yn brifathro'r ysgol.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbty i Mrs Pitman, Ael-y-Bryn; Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian; Mrs Irene Roberts, Pant Teg; Mrs Gweneirys Jones, Cartrefle; Mrs Gwyneth Griffith, Llys Helen; Mrs Mary Davies, Bryn Eithin; Mrs Emsul Jones, Bro Waun; Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion; Mr Morris Lewis, Ty Newydd; Mrs Rosina Owen, Dol Erddi; Mr Gerry Dinwoody, Glyn y Garth; Mrs M. Slaven, Tref Eilian; Mr R. W. Roberts, 9 Bryn Golau; Mrs Jones, Bwthyn. Dymunwn wellhad buan ichi i gyd.

DIOLCH: Dymuna Mrs Irene Roberts, Pant Teg ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl cael triniaeth yn yr ysbty.

DAMWAIN: Torri asgwrn yn ei hysgwydd wnaeth Aime

Addison, Siop Ty Newydd mewn damwain yn ddiweddar. Gobeithio dy fod wedi gwella yn iawn erbyn hyn.

C Y D Y M D E I M L O : Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Jane Roberts, Bro Waun ar golli ei brawd;

- â Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn ar golli ei thad;

- â theulu y diweddar Mr Harry Jones Parry, Rala;

- â theulu y ddiweddar Mrs William Griffiths, Tref Eilian;

- â Mr a Mrs R. Williams, Glaslyn, Stad Newydd Croes y Waun ar golli eu merch Eryl.

Daeth ton o dristwch dros bentre'r Waun ddiwedd mis Gorffennaf gyda'r newyddion am farwolaeth Andrew Parry. Brwydrodd Andrew yn ddewr ac yn siriol hyd y diwedd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i rieni, Mr a Mrs Hugh Parry, â Karen, ac â'i frodyr a'i chwio-rydd a'r teulu i gyd.

FFARWELIO: Mewn cyfarfod arbennig yn yr ysgol ddiwedd tymor yr haf, ffarweliodd staff a phlant yr ysgol â Mr Leslie Jones a fu'n brifathro yno am dros ugain mlynedd. Dymunwn pob hapusrwydd iddo yn ei ymddeoliad.

LLONGYFARCHIADAU i Bethan Cadwaladr, Gwenno Owen a Ffion Edwards o Ysgol Sul Croesywaun, a lwyddodd yn yr Arholiad Sirol yn ddiweddar. Derbyniodd y dair eu gwobr mewn noson arbennig yn Theatr Seilo, Caernarfon, ar Fehefin 28. Da iawn chi ferched - a llawer o ddiolch i Anti Carys am eu hyfforddi.

Dydd Sadwrn, 1 Gorffennaf, ymunodd plant ysgolion Sul Bethel a Chroesywaun ar y trip i Butlins, Pwllheli. Cafwyd diwrnod llawn hwyl, er gwaetha'r tyrfaoedd. Diolch i bawb a gefnogodd y diwrnod arbennig yma ac a gynorthwyodd i'w wneud yn lwyddiant mawr.

Bydd Ysgol Sul Croesywaun yn ail ddechrau dydd Sul, 10 Medi am 10 o'r gloch y bore. Edrychwn ymlaen at weld ffrindiau hen a newydd.

Bydd Ysgol Sul Bethel hefyd yn ail ddechrau ar 10 Medi, am 2 o'r gloch y prynhawn. Croeso i bawb.

YR URDD: Bydd pwyllgor yr Urdd yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch nos Fercher, 6 Medi er mwyn tynnu rhaglen am y tymor.

CLWB GWYRFAI: Mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau Clwb Gwyrfai ar 27 Mehefin, llywyddwyd gan y Parch Canon Barry W. Thomas.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol i atal y cyfarfodyd am amser amhenodol, oherwydd amgylchiadau anorffod. Ar ran yr aelodau oedd yn bresennol mynegwyd gwerthfawrogiad o lywyddiaeth Canon Thomas a'i gyfraniad i'r

Clwb.

Hefyd, i'r ysgrifennydd, Mrs Idris Jones, a'r trysorydd, Mrs. M. Lloyd Jones am eu ymroddiad ar hyd y blynyddoedd.

Penderfynwyd cyfrannu at dysteb i'r prifathro Mr Leslie Jones ar ei ymddeoliad gyda'n dymuniadau da, a diolch am ei garedigrwydd i'r Clwb a'i ddi-dordeb, sydd wedi creu cyswllt rhwng yr ifanc a'r henoed yn yr ardal.

CLWB Y BLAID: **Mis Gorffennaf** - 1, Emrys Hughes, 2, D. Davies; 3, Beryl Jones. **Mis Awst** - 1, Iolo Hughes-Roberts; 2, Mrs Miles; 3, Edgar Owen.

GWASANAETH BWS: O ddydd Llun, 18 Medi, bydd bysus Crosville yn gadael Waunfawr am Gaernarfon ar yr amserau canlynol: 8.25, 10.25, 11.25, 12.25 y bore; 1.25,

2.25, 3.05, 4.10, 4.40, 6.00, 6.25, 7.05 a 10.05 y prynhawn. Yn dechrau ddydd Sul, 17 Medi bydd bws ar y Suliau i'r dref am 10.45, 1.45, 4.45, a 7.45.

Ar gyfer mynd adref o'r Maes bydd y bysus yn gadael am 8.10, 9.20, 11.10, 12.10 y bore; 1.10, 2.10, 2.50, 3.50, 5.10, 5.45, 6.45 a 9.50 y prawn a'r hwyr. Dydd Sul bydd y bysus yn gadael am 10.30, 1.30, 4.30 a 7.30.

Yn ogystal bydd bysus yn gadael Waunfawr trwy Ceunant a Than y Coed i Gaernarfon am 11.00, 1.30, 3.00, 4.35 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac yn dychwelyd ar hyd yr un llwybr o'r Maes am 10.30, 12.00, 2.30, 3.10 (dyddiau ysgol), 3.40 (gwyliau ysgol) a 4.10.

GRADDAU I FERCHED Y FRO



O'r chwith i'r dde: Einir Parry, Ceunant, Delyth Hughes, Llanrug a Bethan Jones, Llanberis. Graddiodd Einir a Bethan yn y Gymraeg, a Delyth mewn Cymdeithaseg - i gyd ym Mhrifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Bwriada Einir a Delyth ddilyn cwrs hyfforddi yn y Coleg Normal, ac y mae Bethan yn dechrau ar ei gwaith fel Swyddog Gyrfaoedd dan Hyfforddiant gyda Chyngor Sir Gwynedd. Dymunwn bob llwyddiant i'r tair yn y dyfodol.

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

**Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau**

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



BRYN

(B & K Williams)

**Hen Ysgol
Glanmoelyn**

LLANRUG

**Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)**

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

DIOLCH: Dymuna Haf, Buarthau, ddiolch o galon i'w pherthnasau a ffrindiau am yr anrhegion gwerthfawr a'r llu cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Dymuna Maggie Lewis, Madryn House, Llanrug, ddiolch o galon i Ward Ogwen, ffrindiau, teulu a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Diolch hefyd i ardal Waunfawr tra yno yn aros a diolch arbenig i Eurwen Williams, Bryn Gro. Bendith oll.

Dymuna Mr R. T. Pritchard, Ty Newydd, Ffordd Glanffynnon, Llanrug, ddiolch i'w gymdogion a'i ffrindiau am eu caredigrwydd ato tra y bu yn yr ysbyty ac ar ôl iddo ddod adref.

PLAID CYMRU: Daeth yn amser i dalu tâl aelodaeth am 1989-90 a bydd y casglyddion yn falch o dderbyn eich tâl cyn diwedd y mis nesaf.

Enillwyr y Clwb Cant am fis Gorffennaf oedd: 1, Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn; 2, Terry Jones, Llys Elen.

Os ydych am ymaelodi â'r Clwb Cant, cysylltwch â'r trefnydd Cliff Williams, Awelon.

Trenfwyd ymweliad gan gwmni Theatr Bara Caws i Ysgol Brynrefail, Llanrug, nos Iau, 28 Medi, ac edrychwn ymlaen at weld yr ardalwyr yno.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin a Gerallt Hughes, 1 Crawia, Llanrug am fod yn llwyddiannus yn yr Arholiad Sirol. Mae'r ddau yn aelod o Ysgol Sul, Capel Cysegr, Bethel. 'Roedd Catrin yn llwyddiannus o dan 11 oed a Gerallt o dan 9 oed.

CAPEL MAWR: Bu aelodau Ysgol Sul Capel Mawr yn brysuriu iawn yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Ar ben pob peth

arall y gwna plant yr oes hon cymerasant ran mewn nifer fawr o weithgareddau gan gynnwys: y gwasanaethau Diolchgarwch a'r Nadolig, a'r Arholiad Sirol, pan gafodd llawer ohonynt lwyddiant. Yn yr arholiad i blant hyn daeth Nia Gwawr, Nia Griffiths, Wendi Thomas a Ffion Jones yn ail drwy'r Sir hefo'u cywaith ar batrwm 'This is Your Life' ar fywyd Solomon. Y genethod yma hefyd a fu wrthi'n brysuriu gyda'r sioe 'Mwy Nag Aur' yn gynharach eleni. Yr ydym yn falch iawn o'u cyfraniad i'r Ysgol Sul.

Gwnaeth timoedd pel-rwyd a phel-droed yr Ysgol Sul yn dda yn y cystadlaethau a gynhaliwyd ym mis Ewrell. Cyrhaeddodd tîm dan 12 oed y bechgyn y rownd cyn-derfynol, enillodd tîm dan 10 oed y bechgyn un gêm a cholli un yn y rownd gyntaf ac aeth tîm pel-rwyd y genethod drwedd i'r rownd derfynol lle collasant i dîm Capel Salem, Caernarfon, o 1 gôl mewn amser ychwanegol. Cafodd y genethod sws gan 'Jabas' er iddynt golli! Carem ddiolch i Mr Dafydd Arfon Jones am roi ei amser i'r timoedd peldroed.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall hwyliog pan ail ddechreuwn ar y 10fed o fis Medi, byddwn yn croesawu Mrs Joan Griffiths atom yn athrawes, â'r plant bach newydd i'r dosbarth cyntaf. Bydd y gwasanaeth Diolchgarwch ar y 1af o Hydref.

CYMDEITHAS LENYDDOL Capel Mawr: Bu cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr, ddiwedd Gorffennaf i drefnu rhaglen am y tymor 1989-90. Etholwyd y swyddogion canlynol: Llywydd: Mr Eifion Roberts, Nant y Glyn; Is-Lywydd: Mr John W. Owen, Llain Delyn; Trysorydd: Mrs M. E. Jones, Ogwen; Ysgrifenyddion: Mrs J. Davies, Rhyd y

Delyn a Mrs Mai Parry, Bryn Heli. Bydd y cyfarfod cyntaf nos Fercher 18 Hydref gyda noson o adloniant gan Parti Wygyr.

APÊL LOWRI: Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod yr haf. Noddwyd tri o fechgyn o Lanrug i redeg Ras yr Wyddfa, a chasglwyd dros £700. Yn ystod dydd Mercher, 24 Awst, cynhaliwyd diwrnod o brynu a gwerthu ar fuarth yr Ysgol Gynradd, a gwnaethpwyd elw o dros £900. Mae'r trefnwyr yn ddiolchgar iawn i bawb a fu'n gymorth i drefnu'r gwahanol achlysuron. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd yn ariannol ac mewn nwyddau ar gyfer stondinau, raffls ac yn y blaen. Derbyniwyd nifer o roddion gan garedigion oedd yn methu bod yn bresennol ar y diwrnod. Trefnir mwy o weithgareddau yn ystod y misoedd nesaf.

EISTEDDFOD LLANRUG

14 Hydref 1989

Dyddiad derbyn Llên:
Hydref 2.

Dyddiad derbyn Celf
a Chrefft: Hydref 9.

Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan mewn cystadleuaeth grwp gysylltu â'r ysgrifenyddion i ni roi eu henwau i drefnwyr grwpiau.

Cynhelir cyfarfod o bwyllgor yr Eisteddfod, nos Lun, 11 Medi, yn Festri Capel Ponrhythallt am 7 o'r gloch.

ANRHEGU A FFARWELIO



Plant Ysgol Gynradd Llanrug yn ffarwelio â Mr Twrog Jones eu dirprwy brifathro, ar ei ymadawiad i fod yn Brifathro Llandwrog.

MERCHED Y WAWR LLANRUG

Cyfarfod cyntaf ar 12 Medi yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 - 'Mynd ar Daith' yng nghwmni Mary Vaughan Jones. Gweithgareddau eraill y tymor: darlithoedd, coginio, ymweliad â'r theatr, cwis, ciniawa, gwibdaith, garddio. Croeso'nôl i gyn-aelodau a chroeso hefyd i unrhyw aelod o'r newydd ymuno â ni. Digon o amrywiaeth at ddant pawb!

Gwasanaeth danfon parseli bychain
a dogfennau hefo motobeic

Wheels Despatch

Yr un diwrnod rhywle'n y wlad.

Ffoniwch:

LLANGOED neu LLANBERIS
(0248) 78787 (0286) 870488

Joelas

CARTREF YR HENOED

CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG

CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS

Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,	Anghenion Tŷ,
Anghenion addurno,	Garddio,
Coed, Tywod, Gro,	Hadau Unwin,
Brics, Blociau,	Hardware, nwyddau
a Sment,	Ironmonger
Offer plymio	Teganau

HANNER CAN MLYNEDD YN ÔL

(Er cof am Auntie Blodwen ac Uncle Tom, 'Caledfryn', 'Rallt Goch, Llanberis, 3 Medi 1939).

Am y saith mlynedd cynta o fy mywyd bum yn byw gyda'm rhieni yn Lerpwl. Yna, torrodd allan ryfel erchyll trwy'r holl fyd, yn dylanwadu hyd yn oed ar eneth fach saith oed!

Niwlog iawn yw fy nghôf o ddim byd bron cyn 1939. Mae rhyw fanylion bach, dibwys, yn aros ym meddwl plentyn, pethau fel platiad o uwd yn rhy boeth i'w fwyta ar hast cyn cychwyn am yr ysgol, neu mynd ar gefn beic-cigydd fy mrawd yn ddigon trwsogl yn aml. Lle braidd yn frawychus yn aml oedd fy nghartref yn llawn swm a thrafferth, ond roedd mynwes garedig a chyfforddus yno pan mewn gofid.

Cafwyd cynnwrf mawr yn y cartre' un dydd, 'Mai am fod yn rhyfel,' medd fy mrawd. 'Rhyfel,' meddwn innau, beth yw hwnnw? Aethom i lawr i'r dref fawr i wneud tipyn o siopa gan fod genym arian i'w wario - a phrynu cyllell, fforc, a llwy, cwpan, plât enamel, a llawer o rhyw bethau rhyfedd. Dywedodd fy chwaer ein bod yn cael mynd i rhywle, ac os y cerddem gartre' y gallem brynu fferins - ac wrth gwrs cerdded wnaethom.

Daeth ofn amaf am rywbeth, beth oedd o'i le ar bawb, roedd Mam yn poeni am rywbeth; golchodd fy nghoesau'n reit wyllt a finnau yn eistedd ar ben y dreser yn y gegin, ac aeth a'r crib-mân trwy fy ngwallt eto.

A dyna ni'n mynd o'r diwedd ond neb yn cael amser i ddweud wrthym i ble. Ar yr orsaf tu ôl i'n stryd ni roedd enw ar y pared - 'Edge Hill' - hwyrach cawn gyfarfod a Daddy?

Ond na - roeddem ni yn mynd yn y trê - ond i ble? Doeddwn i ddim eisiau mynd a gwelwn Mammy yn crio hefyd. 'Peidiwch crio, Mammy, rwy'n eich caru,' meddwn. 'Peidiwch a'm anfon i ffwrdd, nid wy'n hoffi eich gweld yn crio. O, na peidiwch a'm gwithio ar y trê, plis, Mammy. Dowch chi gyda fi hefyd - PLIS?'

Roedd yn gas gennyf y reid ar y trê yna, roedd pawb wedi eu gwasgu at ei gilydd yn llethol a swm erchyll ym mhob man.

Gwelwn y tai yn hedfan o'n golwg a chaeau o'n cwm pas ym mhob man, yna dim ond tir, tir, tir ym mhobman. Anrhefn a therfysg yw'r oll a gofiam am y siwrnai. Yna pobl yn ein cerdded i rhywle, i ryw adeilad.

'Steddych i lawr am ennyd.' Yna i mewn i gerbyd a fi, ond ple mae fy mrawd, ple mae fy chwaer? Yna daeth cerbyd arall a phobl yn edrych i mewn trwy'r ffenestri ac yn siarad rhyw iaith ryfedd. Roeddwn wedi blino yn ofnadwy, ond aed a fi i fyny rhyw risiau i mewn i ryw dy lle roedd tân a chadair gyfforddus. Yna daeth y dagrau.

'Mae fy esgidiau yn brifo' - yn wir, dim ond eisiau Mammy oeddwn. Welais i mohoni am amser maith ar ôl hynny... ond roedd bonesig arall o'r enw 'Anti Blodwen' am edrych ar ein holau ein tair. Collasom un chwaer fach a brawd mawr, gan iddynt fynd i fyw at rhywun arall.

Felly, gwelwch fel y gall rhyfel wyrdroi bywyd a'i ben i lawr. O rhyw wlad bell rhyw ddyn gwirion yn meddwl am ddim ond pwr iddo'i hun, rhyw genedl eisiau rheoli'r byd i gyd, ac yn newid fy mywyd i yn gyfangwbl ond cefais fy nghyflwyno i'm ffrindiau newydd.

Ar ôl paned o de, ymolchi, ac yna cael 'swper chwarel' a chael cig oen Cymreig am y tro cynta - tair chwaer o Lerpwl! Daethpwyd o hyd i John ac Edith yn ddiwed-

darach mewn pentre arall, yn Llanrug, ond yn Llanberis yr oeddem ni yn ddiogel rhag y rhyfel - yng Ngogledd Cymru. Pentre yn dal i siarad Cymraeg hyd heddiw.

Daeth gwr distaw ac urddasol i mewn; wedi bod yn y capel ac yn cerdded i mewn i gyfarfod a thair 'evacuee' wedi ffoi o swm y rhyfel, tair chwaer fach ofnus, blinedig, a

dryslud, Dorothy, Hilda a Sarah. Rhoddodd ni yn ei wely cynnes ei hun gan wrando ar ein gweddïau bach trist, 'Bendith arnom, gad i ni fynd yn ôl at Mammy yn fuan. Cysgasom yn iawn yn y gwely mawr, a derbyniasom gariad ar hyd ein hoes gan y bobl garedig yna.

Sarah Roberts, Llanberis.

PORTREAD FIDEO CYMRAEG 'MARI LEWIS'

Fel Mary Hughes Lloyd y'i bedyddiwyd hi ac fel Mrs Mary Lloyd Williams y mae'r Swyddfa Bensiwn yn ei hadnabod. Fel 'Sioned' y dechreuodd hi ysgrifennu ond fel 'Mari Lewis', colofnydd Y Ty a'r Teulu y'i hadwaenir hi, ers bron 60 mlynedd bellach, gan ddarlennwyr Yr Herald Gymraeg.

Mae 'Mari Lewis' yn 86 oed erbyn hyn a hi a ddewiswyd fel gwrthrych y portread fideo cyntaf i'w gynhyrchu gan Ffilmiau'r Glyn o Benygroes, Arfon - awr o raglen (ar fformat VHS) a ryddhawyd wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nyffryn Conwy.

Mae'r portread yn cynnwys rhai o atgofion mwyaf diddorol Mrs Lloyd Williams am ei phlentyn-dod a'i dyddiau ysgol yn Llanrug a Brynrefail ac yn sôn am yr hyn a'i cymhellodd i ddechrau ysgrifennu colofn o gynghorion i ferched, ar wahoddiad Meuryn, n'ôl yn y dauddegau. Mae ganddi stôr o atgofion am ei thad, Glan Rhyddallt, a urddwyd gan Hwfa Môn yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 1921 - ac amdani hi ei hun yn blentyn pum mlwydd oed, pan 'fedyddiwyd' hi yn yr afon gan Huw Huws, un o hoelion

wyth y diwygiad.

Mae dam helaeth o'r ffilm hefyd yn sôn am gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, pan laddwyd ei brawd yn Ffrainc a phan fu raid i'w thad fynd i weithio yn nociau Lerpwl. Fe gynhwysir nifer o hen luniau, llawysgrifau a dogfennau pwysig.

Dilynr hynt y ferch ifanc yn y Coleg Normal, lle bu'n llywydd Undeb Cristnogol y Myfyrwyr, a daw'r ffilm i ben gyda'i hanes yn cael ei derbyn fel cenhades yn India. Gwrthododd fynd am na chaniateid i'w darpar wr fynd yno gyda hi oherwydd na chafodd ef unrhyw addysg 'ffurfiol' mewn coleg.

Cynhyrchir y rhaglen, y gyntaf mewn cyfres o dan y teitl 'Colofnau', gan Lynn Owen-Rees. Pris y fideo, mewn câs pwrpasol, yw £9.95.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872 276

MARWOLAETH: Bu farw Joan M. Williams, Llety Llwyd ar y 3 Awst. Claddwyd hi ym mynwent Llanrug ar y 7fed o Awst, gyda'r Parch J. N. Morris yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â theulu Llety Llwyd i gyd.

LLONGYFARCHIADAU: i Theresa Gardner, Becws Bryngwyn, ar basio ei arholiadau S.R.N. yn ddiweddar.

GWELLHAD: Da gennym glywed fod Miss Enid Roberts, Minafon, yn gwella ar ôl cael llaw driniaeth yn ysbyty Llandudno.

BEDYDD: Yn ddiweddar bedyddiwyd Elin Mary, merch fach Janice a Raymond Smith, Coventry, a chwaer fach Catrin Anne.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...




**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampol o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

TWF Y SECTOR GYDWEITHREDOL YNG NGHYMRU

Un o ddatblygiadau mwyaf diddorol Cymru yr 80au yw twf y sector gydweithredol. Dengys adroddiad blynyddol Canolfan Cydweithredol Cymru fod y sector hon wedi cynyddu 400% ers 1983. Bellach mae yna dros 120 o gwmnïau cydweithredol yng Nghymru, gyda dros 1,100 o bobl yn gweithio o'u mewn. Mae hyn yn cymharu ag 20 o gwmnïau gyda thua 250 o bobl yn gweithio o'u mewn yn 1983.

Erbyn hyn mae yna gwmnïau sy'n gwenud gwaith amrywiol iawn yn cael eu rhedeg ar sail cydweithredol - cwmnïau megis cwmni rhaglenni teledu Taliesyn; cwmni drama Hwyl a Fflag; cwmni cyfieithu Trosol; cwmni argraffu Argraffwyr Eryri, cwmni cyfrifiadurol Caer Computers; cwmni peirianyddol McKenzie and Brown; cwmni dillad glaw Glyn Protective; cwmni gwneud esgidiau Marged Women's Shoes; cwmni melysfwyd Siwgr a Speis; cwmni sy'n berchen ar dafarn Tafarn y Fic; a chwmni sy'n darparu ar gyfer rhai sy'n wynebu problemau dysgu, sef Antur Waunfawr - ac yn y blaen, ac yn y blaen.

Mae'r Papurau Bro eu hunain, wrth gwrs, yn rhan o ddatblygiad y sector cydweithredol newydd hwn, er nad oes yr un papur eto wedi cofrestru yn gwmni ffurfiol. Fodd bynnag, fel y gwelwch o'r rhestr uchod, mae'r sector gydweithredol eisoes yn gwneud cyfraniad pwysig i'r byd Cymraeg.

Un o'r datblygiadau sydd wedi hwylyso a hyrwyddo twf y chwe blynedd diwethaf yw sefydlu Canolfan Cydweithredol Cymru Cyf yn 1983. Cwmni yw hwn sy'n arbenigo mewn cynghori sut i sefydlu a datblygu mentrau cydweithredol. Mae'r Ganolfan yn cynnig cyngor yn rhad ac am ddim, ac mae ganddi rwydwaith o ymghyngorwyr trwy Gymru benbaladr, gan gynnwys ei hardal chwi.

AR WERTH

Beic Geneth 10 i 12 oed. Cyflwr arbennig o dda. Pris £50. Ffoniwch Caernarfon 3929.

Llewelyn Roberts,
Canolfan Cydweithredol
Cymru,
Swyddfa'r Cyngor,
Bron Castell, Bangor,
Ffôn: (0248) 364729

yw eich cynrychiolydd yn ei ardal chwi, a byddai'n falch iawn o fod o gymorth i unrhyw un sydd a diddordeb mewn sefydlu cwmni cydweithredol o unrhyw fath. Gyda'n gilydd gallwn helpu i ddatrys problemau ein hardaloedd, trwy greu gwaith o fewn ein cymunedau.

SYMUD Y DEFAID YN NINORWIG

Minnau'n rhodio lôn Sion Robin Ifan
Clywais waeddi croch a chwiban
Abram yn symud defaid o un cae i'r llall
Ond bobol bach am gwn di-ddeall.

Troelli a throelli, fel meri-go-rownd
Buasai'n well i'r diawlaid fod yn sownd
Sgrialu'r defaid i bob cyfeiriad
Ni welais erioed gwn mor ddi-syniad.

Trysor pob bugail yw ci defaid da
Ond am un gwaeth, tydio ddim ond pla
Am hynny rhen Ab, cymer gyngor hen fugail fel fi
-Myn wybod ym mha iaith y magwyd dy gi.

Fe ddylet wybod yn amgenach weldi
Gwahaniaeth rhwng ci defaid a milgi
Rhaid i ti addef, peth hollol chwithig
Gweithio Sais o gi yn ardal Dinorwig.

Cymer esiampl, gan deulu Fron-Dêg
Arbedai lawer o straen ar dy geg
Paid bod cymaint o hen deyrn
Dos a'r cwn am wersi i Nant Gwrtheyrn.

CUDDIO MEWN CORDDWR (STORI WIR!)

'Roedd fy nain yn dod o Llangwnadl, ger Aberdaron. Ty bychan un llawr oedd ei chartref, sef Llety Adda. 'Roedd yno griw o blant gan fy hen nain. Yr oedd un ohonynt yn was fferm Pentymor a ddaeth ac aeth yntau i Bwllheli i gyflogi. Yno ar y diwrnod yna 'roedd y 'melisia', milwyr y brenin yn trio cael yr hogiau i ymuno â'r fyddin 'Transfael' gan gynnig arian iddynt. Wel mi oedd brawd nain wedi cael dipyn gormod, a chymerodd yr arian. Aeth adref bore wedyn wedi dod ato ei hunan cofiodd, a dywedodd wrth ei fam. Clywodd fy hen nain fod y mil-

wyr o gwmpas yn hel yr hogiau a dyma a wnaeth yr hen wraig. 'Roedd ganddynt gorddwr pren sgwâr a rhoi ei mab i fewn ynddo, a chlytiau o laeth o'i amgylch o a chymeryd arni ei bod yn corddi. Daeth y milwyr a chwilio bob man ond cael neb yno. Ar ôl clywed fod y milwyr wedi mynd yn ddigon pell dyna dynnu ei mab allan a rhoi arian iddo, ac off â fo am Lerpwl a chael llong i'r America. Welodd neb byth mo'r dyn wedyn.

Yn gywir,

(Mrs) Dorothy May Jones
17 Lôn y Bryn Fflatiau,
Caernarfon.

DRAENOG



Pe gwyddwn fod y lleidar trôns yn bisin bach go handi, byddwn wedi gadael y trôns yn y ty ac wedi mynd i hongian ar y lein fy hun!
(Canwr, neu Drowr Corn D Big.)

RHODDION

£5 - Er cof am dad a mam: William Tomos a Mary Jones, Clwt y Bont. 'Hen lyfr hiraeth ni allwn byth ei gau' - Eu merch, Dorothy May, Caernarfon. Mr. R. A. Roberts, 1 Bryn Gro, Cwm y Glo. Leslie Jones, Meillionydd, Penisarwaun. Selwyn a Myra Griffith, Crud-yr-Awen, Penisarwaun.

£3 - Gareth ac Anita Jones, Marvista, Ceunant, Llanrug. Mr. Elfed Roberts, Godre'r Coed, Brynrefail. Di-enw, Cwm y Glo. Di-enw, Brynsiencyn. Mr a Mrs O. Lewis, 33 Hafod Oleu, Deiniolen.

£2 - Mrs Fleming, Dinorwig. Lyndsey V. Parry, Porth y Gogledd, Deiniolen. Beryl ac Owie Hughes, 50 Rhydfadog, Deiniolen. Mr a Mrs D. Williams, Ty'r Heddlu, Deiniolen. Mrs M. Roberts, Crud yr Awel, Deiniolen.

Mrs M. Lewis, Madryn House, Llanrug. Mrs Mair Parry, Llanllyfni. Bob Hughes, Dalar Deg, Lôn y Meillion, Bangor.

£1 - Karen a Michael Talor, 8 Tai Cynfi.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth



ANTUR WAUNFAWR

I weled ein crôg fasgedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD
ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

* GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Dyddiadur y Mis

MEDI

4 Llun. Deiniolen: Sefydliad y Merched.

5 Mawrth. Llandinorwig: Undeb y Mamau yn yr Eglwys 7 o'r gloch.

7 Iau. Waunfawr: Sefydliad y Merched.

Penisa'rwaun, Neuadd yr Eglwys: Noson i longyfarch y Prifardd Selwyn Griffith.

8 Gwener. Llanberis: Te yr Henoed.

10. Sul. Llanrug: Capel Mawr, Yr Ysgol Sul yn ail ddechrau.

Penisa'rwaun: Capel Bosra ac Eglwys Santes Helen - Ysgolion Sul yn ail ddechrau.

Penisa'rwaun: Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen.

11. Llun. Penisa'rwaun: Bingo yn Neuadd yr Eglwys.

Llanrug: Pwyllgor Eisteddfod y Pentref yn Festri Pontrythallt am 7.

12 Mawrth. Deiniolen: Cyfarfod Blynnyddol yr Ysgol Feithrin am 7.

13 Mercher. Bethel: Merched y Wawr am 7.30.

Penisa'rwaun: Noson i Blant Ysgol Gynradd.

Yr Ardal: Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa.

14 Iau. Llanrug: Tombola yn yr Ysgol am 7. Trefnir gan gan-gen leol NSPCC.

15 Gwener. Penisa'rwaun: Noson Fideo.

16 Sadwrn. Penisa'rwaun: Carnifal am 2.

18 Llun. Brynrefail: Sefydliad y Merched.

19 Mawrth. Penisa'rwaun: Clwb yr Heulwen.

22 Gwener. Llanberis: Te yr Henoed.

28 Iau. Llanberis: Sefydliad y Merched.

Waunfawr: Merched y Wawr am 7.15.

Yr Ardal: Ysgol Brynrefail - perfformiad gan gwmni Theatr Bara Caws.

30 Sadwrn. Ras Antur Waunfawr.

Anti Magi, 'Rallt Goch, Llanberis

Mewn bwth yn Llanberis, ar graig i fyny'r allt,
Mae cymeriad y pentre, un arian ei gwallt,
Un driw ei chymeriad, yn onest fel dur,
Wedi gweithio'r holl flynyddoedd, drwy ofid a chur.

Mae hon fel hen Walia, wedi dal dan y straen!
Goroesi'r 'tridegau' er byw ar fwyd plaen;
Pan ddaeth 'stormydd y Gaeaf i'r ardal ar hynt,
Fe blygodd yn raddol i frathiad y gwynt.

Er bod hi mewn oedran, mae mor ifanc ac erioed!
Fel Briallu y Gwanwyn yn cadw yr oed;
'Rwy'n ei gweld hi am oesoedd yn cerdded y ffridd,
Hon yw 'Halen y Ddaear', ac yn agos i'r pridd.

'Anti Magi, ga'i ddiolch o' nghalon i chi,
Am roi calennig bob blwyddyn i Dafydd a fi;
Am helpu'r hen hogiau sy'n brwshio y stryd,
Am wrteisi a chanmoliaeth, sy'n beth gwerthfawr - a drud!

John V. Morris, Rhianfa,
Deiniolen.

HWYL HAF DINORWIG



"Cant a mil o be?" meddai'r Draenog

Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug
Theatr Bara Caws.

"Os na ddaw Blodau"

Nos Iau, Medi 28ain 7.00

Ffoniwch Wanfawr 200 neu Caernarfon 5668
am eich tocynnau

**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood


'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

**4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047**

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

CHWARAEON

CLWB PELDROED LLANBERIS SÊR Y GORFFENNOL

A'r Darans ar fin dathlu eu canmlwyddiant, a hwythau'n chwarae eu gêm gyntaf gartref yn y 'Welsh League', aed ati i geisio casglu ynghyd gyn-chwaraewyr a fyddai'n cynrychioli timau pob degawd yn hanes y clwb. Ken Jones a wnaeth y gwaith ymchwil ac a berswadiodd y 'tîm' i droi allan, ac er na fu'n rhaid iddynt wynebu dim mwy ffyrnig na chamera'r Eco mae'n ddiddorol dyfalu pa fath hwyl fyddai y rhain, a hwythau ar eu gorau wedi ei gael yn erbyn y tîm presenol.



Yn y rhes gefn mae Emlyn Davies sy'n 69 bellach. Bu'n chwarae i Lanber rhwng 1947 a 1958, hynny ar ôl sbel yn Notts Forest tua 1937.

Yn ei ochr mae'r enwog Wyn Davies, 46 oed, a ddywedir iddo gael y 'drop' gan Lanber yn 1958. Aeth ymlaen i chwarae dros Gaernarfon, Wrecsam, Newcastle, Bolton, Man U a City ac wrth gwrs dros Gymru.

Mae Twm John Roberts yn 63 a bu'n chwarae yn y cofnod 1947-52. Mae'n parhau i roi llawer o'i amser a'i egni i'r clwb.

Edrych Wili Wyn o Fethel (Deiniolen gynt) yn llawer ieuen-gach na'i bedwar ugain, a bu'n chwarae i'r tîm am nifer o flynyddoedd o 1932 ymlaen.

Newydd gael ei drigain mae

Selwyn Griffith, bardd y goron yn Llanrwst eleni. Ef oedd y golgeidwad yn 1948 ac yn ei ochr mae Dafydd Williams o Gaernarfon. Mae ef, fel Wili Wyn, bellach yn 80 oed a hwy yw'r unig ddau sydd ar ôl o'r tîm a enillodd Gwpan Iau Gogledd Cymru ddwywaith yn y tridegau.

Yn y rhes flaen mae'r rheolwr presenol, Iwan Williams, sy'n 42 oed, ac a fu'n gysylltiedig a'r clwb ers 1981, y capten presenol, Eifion Jones o Ddeiniolen, 28 oed; Arwel Jones (47), fu'n aelod o'r tîm bendigedig hwnnw rhwng 1960 a '68 ag sy'n gweithio ar baratoi llyfr i ddathlu canmlwyddiant y clwb. Ken James Jones, 55 oed, ac yn aelod o'r pwyllgor presenol (1955-60) ac Ifor Jeff Owen, 50 oed, fu'n chwarae yn y gôl o 1962 i 1970.

CLWB PELDROED LLANBERIS

Mae'r tîm cyntaf wedi cael dechrau ardderchog yn y 'Welsh League', neu'r Warwick International Welsh Alliance i roi ei henw cywir iddi eleni. Mewn cyfnod o wyth niwrnod maent wedi curo Conwy, Mochdre a Llandudno a dod yn gyfartal â'r Felinheli.

Mae tri golgeidwaid yn y garfan, sef Nigel Phillips, Phillips Williams (wedi symud o'r Bontnewydd) a Huw Jones. Bu pedwar o'r cefnwyr, sef Kevin Owen, Paul Thomas, Colin a Terry Saynor, yn chwarae i Gaernarfon y llynedd ac Eifion Jones i'r Rhyl. Ag eithrio Stephen Tindell, oedd y llynedd yng Nghaernarfon, chwaraewyr canol cae a'r blaenwyr i gyd ar lyfrau Llanber, sef R. John Williams, John Williams, Iolo Evans, Terence Griffiths, Gareth W. Jones, Iwan Evans, Gwyndaf



PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Ar nos Wener, 14 Gorffennaf, fe arllwyswyd cemegau o waith yn ardal Deiniolen gan lygru dyfroedd y Caledffrwd. Amcangyfrifir i 15,000 o gywion sewin ac eog eu lladd, a chan fod hyn yn dilyn y llygru diweddar yng Nghrawia pan gollwyd hyd at 20,000 o bysgod, amser yn unig a ddengys yr effaith arnom ni'r 'sgotwyr'.

Hyd at ganol Awst, yn dilyn y sychder a'r tywydd poeth, 'roedd lefel y dwr yn yr afonydd cyn ised ag y bu yr haf sych yn '76. Yna fe ddaeth y glaw, ac er fod digon o ddwr bellach, cyndyn fu'r eog a'r sewin sy'n gwau drwy eu gilydd yn y Fenai i droi tro'r afonydd. Er hynny deallaf i Bryn Griffiths, Cacathro, ddal dau eog yn ardal Glan Gwna, Carl Hasson o Gaernarfon un saith bwys o Gaeau Rafon, Gwyn Parry o Rhiwlas un naw pwys yn Nazareth a Tony Roberts, Penbont un chwe phwys. Sut ar wyneb y ddaear mae hwn yn dal rhai bob tymor ac yntau'n 'sgotwr mor sal? Mae tu hwnt i'n deall i! Peidied anghofio 'mod innau wedi codi un chwe pwys yng Nghrawia, lwc mwnci meddai Tony!

Clwysais fod rhediad go dda wedi cymery i'r Llyfni ond ei bod wedi mynd fel 'express' am lyn Nantlle gyda'r canlyniad mai ychydig yn unig a godwyd o'r afon.

Llongyfarchiadau i Sara Roberts o Seion ar gael ei dewis yn aelod o dîm Cymru yn y gystadleuaeth Rhyngwladol gyntaf i ferched ar Lyn Brenig ar y 24 Awst; ac hefyd i Oscar Evans o Fethel a fu'n cynrychioli ei wlad ym mhencampwriaeth y byd yn y Ffindir yn ddiweddar. Daeth y tîm yn nawfed, diolch i 'sgota eithriadol o dda gan Oscar.

Yn ystod Awst fe gynhaliwyd cynstadleuaeth rhyngwladol hefyd ar Loch Leven, ac yno bu Cymru'n fuddugol, gydag Oscar yn codi'r 'sgodyn tryma, sef brithyll brown gwyllt yn pwyso dros dri phwys.

Llongyfarchiadau i Gwynfryn Williams, 19 oed, o Benisa'rwaun ar gael ei ddewis yn un o ddau yn unig o Gymru fydd yn cynrychioli ei wlad mewn cystadleuaeth rhyngwladol i leuencid yn Sofia, prif ddinas Bwlgaria y pen wythnos nesaf (3 a 4 Medi).

Bydd yn cystadlu yn y dosbarth 671/2kg ac yn gobeithio y bydd ei godiad gorau ar y 'snatch' (100kg) a'r 'clean and jerk' (115kg) yn dod a gwobr iddo.

Mae Gwynfryn yn ymarfer yng nghlwb codi pwysau Llanrug gyda Ieuan Owen, un sydd ag iddo flynyddoedd lawer o brofiad a llwyddiant fel cystadleuydd a hyfforddwr.

Yn y llun ar y dde gwelir Gwynfryn yn delio'n hollol ddidrafferth â dros 200 pwys ar y bar! Pob lwc iddo.

CODI PWYSAU



- TIMAU ELENI

Jones, Emlyn Roberts a Derfel Roberts. Iwan Lloyd Williams yw'r rheolwr.

Mae'r ail dîm yn parhau yng nghynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch, ynghyd â Deiniolen ag ail dîm Llanrug. Yn eu tair gem hyd yma llwyddasant i ddod yn gyfartal â Phorthmadog a Nefyn a churo Dyffryn Nantlle o 3 gôl i 0. Chwaraewyr lleol yw mwyafrif helaeth y garfan hon hefyd, ac fe gynnwys Huw Jones, Dylan Williams, Alan Williams, Gareth Jones, Andrew Owen, Keith Jones, David Jones, Kelvin Jones, Alwyn Williams, Ian Owen, Andrew Griffith, Paul Roberts, Steven Thomas, Cai Williams, Marc Williams, Nigel Orritt, John Ifor Jones, David Evans, Gwilym Williams a Phillip Pugh. Kelvin Jones a Gwilym Williams yw rheolwyr y tîm.

